**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**CYFARFOD ARBENNIG O BWYLLGOR ARDAL DWYFOR**

**SPECIAL MEETING OF THE DWYFOR AREA COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2.00PM DYDD GWENER, 1 MAWRTH, 2013**

**2.00PM FRIDAY, 1 MARCH, 2013**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL GYFARFOD, FRONDEG, PWLLHELI**
**MEETING ROOM, FRONDEG, PWLLHELI**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**IOAN HUGHES**

**(01286) 679780**

IoanHughes@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 26-02-13

**AELODAETH/MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr/Councillors:**

**Stephen W. Churchman**

**Anwen Davies**

**Aled Evans**

**Gweno Glyn**

**Simon Glyn**

**Alwyn Gruffydd**

**E. Selwyn Griffiths**

**Jason Humphreys**

**John Brynmor Hughes**

**Llywarch Bowen Jones**

**Michael Sol Owen**

**Peter Read**

**Liz Saville Roberts**

**W. Gareth Roberts**

**Angela Ann Russell**

**Eirwyn Williams**

**Gruffydd Williams**

**Owain Williams**

**R.H. Wyn Williams**

**Robert J. Wright**

## RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. GWASANAETHAU CLUDIANT CYHOEDDUS A CHLUDIANT ADDYSG ARDAL DWYFOR**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio, (copi ynghlwm)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARBENNIG ARDAL DWYFOR** |
| **DYDDIAD** | **1 Mawrth 2013** |
| **TEITL** | **Gwasanaethau Cludiant Cyhoeddus a Chludiant Addysg Ardal Dwyfor** |
| **PWRPAS** | **Darparu'r Cefndir i'r Broses Ail Dendro** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Aled Davies - Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd** |

1. Gwahoddwyd tendrau ar gyfer darparu cludiant cyhoeddus a chludiant Addysg yn Ardal Dwyfor ar 15 Ionawr 2013. Dychwelwyd y tendrau ar 25ain Chwefror, 2013. Bydd asesiad llawn o'r holl gynigion yn cael ei wneud yn ystod y 3 wythnos nesaf. Mae yn fwriad i gyflwyno gwybodaeth am yr opsiynau trywydd cludiant i'r Pwyllgor Ardal ar 19 Fawrth 2013. Y nod yw dechrau gwasanaethau newydd o fis Ebrill, 2013 ymlaen.

2. Gellir cadarnhad na dderbyniwyd cais gan y cwmnïau cludiant am estyniad i gyfnod y tendr, a bod pob cwestiwn oedd wedi codi ganddynt yn ystod y cyfnod tendro wedi derbyn ymateb gan swyddogion.

3. Gwahoddwyd ceisiadau i gyflwyno gwasanaethau yn dilyn trafodaethau gydag aelodau a gyda'r cwmnïau cludiant. Mae Swyddogion y Gwasanaeth wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd gydag aelodau a hefyd rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor Ardal [17.09.12] i godi ymwybyddiaeth ar dendro cludiant Dwyfor. Cadarnhaf yn ogystal bod Swyddogion wedi ymweld â'r cwmnïau bysiau sawl gwaith i gasglu gwybodaeth am y gwasanaethau presennol ac wedi esbonio'r drefn tendro iddynt. Hefyd, mae cefnogaeth gan Menter a Busnes a Bravo Solutions wedi ei gynnig i'r cwmnïau.

4. Mae £692,292.05 yn cael ei wario fel sybsidi cludiant cyhoeddus yn ardal Dwyfor ar hyn o bryd ac mae'r Cyngor yn gwario £1,213,824.89 am gludo dysgwyr i ysgolion yn Nwyfor gyda bws a £491,747.00 i gludo dysgwyr gyda thacsi a gan y rhieni.

5. Nid yw rhai gwasanaethau yn Nwyfor wedi eu tendro ers dros 20 mlynedd, felly, mae gwir angen ail edrych ar y sefyllfa yn ei chyfanrwydd i sicrhau gwerth am arian. Mae hyn yn hynod bwysig yn enwedig gan fod Llywodraeth Cymru yn parhau i dorri ar grantiau cludiant sydd yn cael eu rhannu gydag awdurdodau lleol ac felly bod yna risgiau o gynnydd costau i'r awdurdodau. Mae ail dendro hefyd yn cynnig cyfle i sicrhau bod y gwasanaethau sydd yn cael ei ddarparu yn cyd-fynd gyda threfniadau a pholisïau'r Cyngor.

6. Mae'r prif bryderon a fynegwyd gan aelodau yn ymwneud a chludiant addysg. Er gwybodaeth, mae copi o ganllawiau cenedlaethol ar Gludiant Addysg, a hefyd polisi Cyngor Gwynedd sydd wedi'u selio ar y canllawiau hyn wedi eu hatodi yn Atodiad A.

7. Cam pwysig oedd wedi ei gymryd wrth baratoi'r wybodaeth tendr ar gyfer cludiant addysg oedd edrych ar leoliad cartref pob un dysgwr mewn perthynas â lleoliad yr ysgol, a strwythuro'r tendrau o gwmpas y dysgwyr sydd gyda hawl am gludiant addysg, sef y rhai sydd yn:

- Ysgolion Cynradd- cludiant i ddysgwyr sydd yn byw 2 filltir neu drosodd o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch neu'r ysgol agosaf.
- Ysgol Uwchradd- cludiant i ddysgwyr sydd yn byw 3 filltir neu drosodd o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch neu'r ysgol agosaf.
- Cludiant Dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau yn unol ag argymhellion y Cyd Bwyllgor Anghenion Addysg Arbennig.

8. Rhaid hefyd cofio bod trefniadau gan y Cyngor i gymeryd mantais o seddi gweigion ar gludiant a ddarperir. Gall dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael cludiant fanteisio ar y cynllun seddi gweigion unwaith y byddwn yn ymwybodol o'r hyn sydd yn cael ei gynnig gan y cwmnïau cludiant.

# CRYNODEB

Cafodd y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (“y Mesur”) ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 30 Medi 2008 ac fe’i cymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 10 Rhagfyr 2008.

Mae’r Mesur yn mynd i’r afael â dyletswyddau ar awdurdodau lleol i asesu anghenion teithio dysgwyr ac i drefnu cludiant ar gyfer grwpiau diffiniedig o ddysgwyr, ynghyd â materion eraill. Mae’n creu sail i well dull gweithredu unedig ar gyfer dysgwyr cyn 16 a hefyd dysgwyr ôl-16. O fewn fframwaith cyffredin ar gyfer Cymru ceir bellach isafswm diffiniedig o hawl i gludiant a gall awdurdodau gynnig mwy, yn ôl eu disgresiwn.

Mae’r Mesur yn disodli’r darpariaethau sy’n berthnasol i Gymru a geir yn adrannau 509, 509AA, 509AB, 509AC a 509A o Ddeddf Addysg 1996 (fel y’i diwygiwyd) mewn perthynas â darparu cludiant ar gyfer plant ac eraill sy’n derbyn addysg a hyfforddiant mewn ysgolion a sefydliadau eraill.

Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adran 15 o’r Mesur (ac adran 32 o Ddeddf Addysg 2002 fel y’i diwygiwyd gan y Mesur) ac maent yn adlewyrchu’r newidiadau i drefniadau cludiant i’r ysgol sy’n ofynnol yn sgil y Mesur. Mae’r canllawiau hyn yn rhai statudol, ac eithrio Rhan 6 lle nad oes gan Weinidogion Cymru'r pwerau angenrheidiol ar gyfer cyhoeddi canllawiau statudol. Mae’n rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau wrth iddynt ymgymryd â’u swyddogaethau o dan y Mesur. Maent yn disodli’r canllawiau anstatudol *‘Cludiant rhwng y Cartref a’r Ysgol’* a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2008 a’r canllawiau statudol ynghylch datganiadau polisi am gludiant ar gyfer dysgwyr ôl-16.

Mae’r canllawiau hyn yn disgrifio dehongliad Llywodraeth Cynulliad Cymru o’r gyfraith ynghylch cludiant i’r ysgol ac mae’n amlinellu sut y dylai awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol. Nid ydynt yn cynnig arweiniad swyddogol i’r gyfraith gan mai mater i’r llysoedd yw hwn ac nid ydynt ychwaith yn gwaredu’r angen i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

**DAW’R CANLLAWIAU HYN I RYM AR 1 EBRILL 2009.**

# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhan 1: Y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)** | **1** |
| Trosolwg | 1 |
| Asesu Anghenion | 1 |
| Hawl | 3 |
| Gwneud Trefniadau Teithio Eraill | 4 |
| Yr Ysgol, yr Uned neu'r Sefydliad Addas Agosaf | 4 |
| Dewis Rhieni a Derbyn Disgyblion i Ysgolion | 5 |
| Dewis Plant | 5 |
| Presenoldeb Disgyblion yn yr Ysgol | 5 |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | 5 |
| Preswylfa Arferol | 6 |
| Pellter Cerdded a Ffyrdd Cerdded Diogel | 7 |
| Trefniadau Cludiant Addas | 7 |
| Amserau Teithiau | 8 |
| Cyfrifoldeb am Ofal Disgyblion sy'n Teithio i'r Ysgol | 8 |
| Codi Disgyblion a'u Gollwng ar Safleoedd Ysgolion | 9 |
| Gorlenwi | 10 |
| Defnyddio Hebryngwyr ar Fysiau | 10 |
| Gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol | 10 |
| Ôl-16 | 11 |
| Newid mewn Amserau Sesiynau Ysgolion | 12 |
| Y Cod Ymddygiad wrth Deithio | 12 |
| Pwerau Cyffredinol | 13 |
| **Rhan 2: Trefniadau Cludiant yn ôl Disgresiwn** | **15** |
| Trosolwg | 15 |
| Pŵer Awdurdodau Lleol i wneud Trefniadau Teithio ar gyfer Dysgwyr | 15 |
| Lyfansau a Chynlluniau Teithio Rhatach | 16 |
| Cludiant i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg | 16 |
| Cludiant i Ysgolion Enwadol | 18 |
| Cludiant ar gyfer Plant O Dan yr Oedran Ysgol Statudol | 19 |
| Codi Tâl am Gludiant | 19 |
| **Rhan 3: Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig** | **21** |
| Trosolwg | 21 |
| Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anableddau | 21 |
| **Rhan 4: Cynllunio Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol** | **23** |
| Trosolwg | 23 |
| Cynllunio Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol | 23 |
| Contractau ar gyfer Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol | 24 |
| Costau Rheoli | 26 |

**Rhan 5: Cyfathrebu â Defnyddwyr ac Ysgolion 27**

Trosolwg 27
Cyhoeddi Polisïau Cludiant Ysgolion a Gwybodaeth ar gyfer Rhieni 27
Newidiadau i Bolisïau Cludiant Ysgolion – Cysylltu â Disgyblion a Rhieni 29
Cyswllt Cyffredinol ag Ysgolion 29

**Rhan 6: Materion Diogelwch Eraill 31**

Trosolwg 31
Safonau Cerbydau 31
Gwregysau Diogelwch 31
Y Consesiwn '3 am 2' 32
Bysiau Deulawr 32
Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) 32
Trwyddedu a Hyfforddi Gyrwyr Bysiau 33
Ystyriaethau Cyfreithiol Eraill ar gyfer Awdurdodau Lleol 33

**Diffiniadau o'r Prif Dermau a ddefnyddir yn y Canllawiau hyn 35**

**Dolenni i Wybodaeth Ddefnyddiol 37**

# Rhan 1: Y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)

## *Trosolwg*

1.1 Mae Deddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) yn amlinellu'r gyfraith o safbwynt **presenoldeb** disgyblion yn yr ysgol ac amlinella Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ('y Mesur') ddarpariaethau cysylltiedig o safbwynt **cludiant i'r ysgol/ i ddysgwyr** yng Nghymru.

1.2 Amlinella'r Mesur ofynion penodol o safbwynt cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yng Nghymru. Ei brif ddarpariaethau yw:-

- fis Medi 2009 darparu lefel uwch o hawl i gludiant am ddim ar gyfer **pob** plentyn sy'n derbyn addysg gynradd, gan bennu trothwy o **ddwy** filltir neu ymhellach rhwng y cartref a'r ysgol addas agosaf;
- cynnal y trothwy pellter presennol o 3 milltir ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg uwchradd er mwyn bod yn gymwys i gael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol addas agosaf;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu'n benodol anghenion plant sy'n derbyn gofal a'u bodloni;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru, wrth iddynt ymgymryd â'u swyddogaethau o dan y Mesur, hybu mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg;
- ei gwneud yn bosibl i greu darpariaeth yn ddiweddarach ar gyfer teithio o ran hawl plant mewn addysg feithrin a myfyrwyr ôl-16;
- sicrhau bod cydweithredu rhwng awdurdodau ac ysgolion a darparwyr addysg bellach ynghyd â chynaliadwyedd amgylcheddol yn agweddau canolog ar waith cynllunio a chyflawni trefniadau teithio;
- hwyluso safonau cyffredin ar draws Cymru o safbwynt ymddygiad a disgyblaeth ar gyfer y sawl sy'n teithio i'w man dysgu neu hyfforddi neu oddi yno – pa bynnag fath o gludiant a ddefnyddir – a sicrhau bod y trefniadau gorfodi yn glir;
- rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol newid amserau sesiynau ysgolion os gallai hynny wneud trefniadau cludiant yn fwy effeithiol, yn effeithlon neu'n fwy cynaliadwy ar lefel amgylcheddol; a
- galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddiadau a chanllawiau statudol.

## *Asesu Anghenion*

1.3 Mae Adran 2 o'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i asesu anghenion teithio dysgwyr nad ydynt eto'n 19 oed (neu ddysgwyr sydd wedi cyrraedd 19 oed ond a wnaeth gychwyn ar gwrs addysg neu hyfforddiant cyn cyrraedd yr oedran hwnnw ac sy'n parhau i fynychu'r cwrs hwnnw) sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant ac sy'n preswylio gan amlaf yn ardal yr awdurdod.

1.4 ‘Anghenion teithio dysgwyr’ yw anghenion dysgwyr o ran trefniadau teithio addas bob dydd rhwng y cartref a’r ysgol neu fannau eraill lle y maent yn derbyn addysg a hyfforddiant (a elwir yn ‘fannau perthnasol’[1]). Bydd yr asesiad yn cynnwys dysgwyr sy’n teithio i fannau perthnasol sydd o fewn ardaloedd awdurdodau eraill.

1.5 Wrth asesu anghenion teithio dysgwyr dylai awdurdodau lleol ystyried beth yw’r angen am drefniadau teithio ar sail:-

- pwy yw’r dysgwyr yn eu hardal;
- lle y maent yn ei fynychu neu’n bwriadu ei fynychu;
- pa ddysgwyr y mae ganddynt ddyletswydd yn eu cylch o dan adrannau 3 a 4 o’r Mesur;
- i ba ddysgwyr y maent eisiau cynnig cludiant iddynt yn ôl eu disgresiwn o dan adran 6 o’r Mesur;
- pa drefniadau eraill sydd eisoes yn bodoli/a fydd yn bodoli ar gyfer y rhai na wnânt ddarparu cludiant ar eu cyfer e.e. a yw’r coleg addysg bellach yn darparu cludiant ar gyfer myfyrwyr 16-18 oed?

1.6 Mae hefyd yn ofynnol i’r awdurdod lleol ystyried:-

- anghenion dysgwyr anabl neu ddysgwyr ag anawsterau dysgu;
- unrhyw anghenion penodol gan ddysgwyr sy’n blant ‘sy’n derbyn gofal’ neu a arferai dderbyn gofal gan awdurdod lleol;
- oedran dysgwr; a
- natur y ffordd y disgwylir i’r dysgwr ei dilyn rhwng y cartref a’r mannau lle y mae’n derbyn addysg neu hyfforddiant.

1.7 Wrth asesu anghenion teithio dysgwyr mae’n rhaid i awdurdodau lleol ystyried y ffaith na ddylai’r trefniadau teithio a wneir ganddynt yn sgil yr asesiad beri lefelau afresymol o straen; gymryd amser afresymol o hir nac ychwaith fod yn anniogel.

1.8 Bydd yr asesiad yn rhoi trosolwg i awdurdodau lleol o anghenion teithio dysgwyr yn eu hardaloedd a bydd yr wybodaeth honno yn eu galluogi i wneud trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr mewn modd effeithlon ac effeithiol. Bydd hefyd yn eu galluogi i ddarparu gwybodaeth ar gyfer pobl eraill am y trefniadau teithio sydd ar gael. Mae’n rhaid i awdurdodau lleol hefyd hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur.

1.9 Mae’r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i’r asesiad adlewyrchu anghenion teithio dysgwr sy’n mynychu gwahanol ‘fannau perthnasol’ ar wahanol ddyddiau. Gwneir hyn er mwyn adlewyrchu’r ffaith y gallai rhai dysgwyr fod yn mynychu gwahanol ysgolion neu sefydliadau addysg bellach ar gyfer rhan o’u haddysg neu hyfforddiant. Serch hynny, ni fydd yr asesiad ond yn ymdrin â theithio rhwng y cartref a mannau o’r fath ac nid yw’n ymwneud â theithio yn ystod y dydd rhwng gwahanol

[1] Mae Adran 1(4) o’r Mesur yn diffinio man perthnasol. Noder nad yw’r gwaith o safbwynt 1(4)(j) wedi cychwyn hyd yma.

fannau. Ni fydd yr asesiad yn ymwneud ag anghenion teithio ar gyfer tripiau preswyl neu dripiau dydd a drefnir gan ysgolion neu sefydliadau addysg bellach, ac nid oes gofyn i awdurdodau (er y gallant ddewis gwneud hynny os ydynt yn dymuno) ystyried gweithgareddau allgyrsiol, clybiau brecwast na chlybiau ar ôl ysgol.

1.10 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol asesu ymhob blwyddyn academaidd anghenion teithio'r dysgwr ar gyfer y flwyddyn academaidd ddilynol.

## *Hawl*

1.11 Mae Adran 3[2] o'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i drefnu cludiant ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol o dan amgylchiadau penodol ac yn unol ag amodau penodol. Mae'r adran yn amlinellu darpariaeth benodol ar gyfer system o hawl i gludiant am ddim, a ddiffinir drwy gyfeirio at y ffaith bod y plant un ai'n derbyn addysg gynradd neu addysg uwchradd ac yn byw pellteroedd penodol o'r mannau lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant neu ymhellach.

1.12 Bydd gan blant sy'n derbyn addysg gynradd hawl i gludiant am ddim os ydynt yn byw o leiaf ddwy filltir i ffwrdd o'u hysgol a gynhelir, uned cyfeirio disgyblion, neu ysgol arbennig nas cynhelir, oni bai fod yr awdurdod wedi trefnu bod y disgybl yn ddisgybl cofrestredig mewn sefydliad addas sy'n nes i'r cartref neu wedi trefnu i'r plentyn gael llety byrddio yn yr ysgol neu gerllaw.

1.13 Lle y mae gan blentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n enwi ysgol annibynnol, a bod yr ysgol honno ddwy filltir neu fwy i ffwrdd o gartref y plentyn, bydd yn rhaid i awdurdod lleol ddarparu cludiant am ddim oni bai ei fod wedi trefnu bod y plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn sefydliad addas yn nes i'w gartref, neu wedi trefnu i'r plentyn gael llety byrddio yn yr ysgol neu gerllaw.

1.14 Mae gan blant sy'n derbyn addysg uwchradd hawl tebyg, cyn belled â'u bod yn byw o leiaf dair milltir o'u hysgol a gynhelir, uned cyfeirio disgyblion, ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol annibynnol a enwir mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig. Lle y mae'r awdurdod lleol wedi trefnu bod y plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn sefydliad addas yn nes i'w gartref, neu lle y mae wedi trefnu i'r plentyn gael llety byrddio yn yr ysgol neu gerllaw, nid yw'r ddyletswydd hon i ddarparu cludiant am ddim yn berthnasol.

1.15 Mae'r hawl yn cynnwys cludiant ar gyfer unrhyw blentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu sefydliad addysg bellach fel myfyriwr amser llawn os yw'n dair milltir neu fwy o'i gartref ac nad yw'r awdurdod lleol wedi trefnu bod y plentyn yn mynychu sefydliad addas yn nes i'w gartref.

1.16 Mae'r hawl hefyd yn cynnwys teithio rhwng y cartref a man perthnasol heblaw am yr un lle y mae plentyn yn ddisgybl cofrestredig. Adlewyrcha hyn y ffaith bod rhai plant yn mynychu gwahanol fannau ar wahanol ddyddiau, a byddai er enghraifft yn cynnwys teithio ar ddechrau neu ar ddiwedd y dydd i wahanol ysgol neu sefydliad addysg bellach ar gyfer cyrsiau penodol.

[2] Daw i rym ar 1 Medi 2009.

## *Gwneud Trefniadau Teithio Eraill*

1.17 Mae Adran 4[3] o'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio eraill ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol os yw'r awdurdod yn barnu bod angen gwneud hynny er mwyn hwyluso presenoldeb plentyn mewn ysgol neu goleg. Byddai angen i'r trefniadau hyn fod yn ddi-dâl (heblaw mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal lle y gellir adennill costau oddi wrth awdurdod arall).

1.18 Mae Adran 4 hefyd yn rhoi sail i awdurdodau lleol hwyluso trefniadau teithio plant os oes ganddynt unrhyw anghenion penodol, boed yn deillio o anhawster dysgu, anabledd neu unrhyw ffactor arall sy'n gwneud trefniadau teithio penodol yn angenrheidiol er mwyn hwyluso eu presenoldeb.

1.19 Gallai awdurdod farnu bod angen gwneud trefniadau o dan adran 4 o'r Mesur ar gyfer plentyn nad oes ganddo hawl i gludiant am ddim o dan adran 3 oherwydd ei amgylchiadau unigol e.e. efallai na all plentyn ag anabledd gerdded hyd yn oed hanner milltir i ysgol, felly gallai fod angen gwneud trefniadau teithio ar gyfer y plentyn hwnnw; neu gallai awdurdod farnu bod angen gwneud trefniadau o dan adran 4 yn ychwanegol at y ddarpariaeth o gludiant sydd ei angen o dan adran 3, er enghraifft, i drefnu hebryngwr neu gyfarpar ar gyfer plentyn anabl. Nid oes yn rhaid i awdurdod ddarparu cludiant. Gallai, er enghraifft, roi pas bws i ddysgwr neu drefnu ei fod yn cael ei hebrwng wrth gerdded i'r man perthnasol.

1.20 Wrth ystyried a yw trefniadau teithio yn addas, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried yr asesiad o anghenion a gynhaliwyd yn unol ag adran 2, y trefniadau cludiant y mae dyletswydd arno i'w gwneud o dan adran 3, oedran y plentyn, unrhyw anabledd neu anhawster dysgu a natur y ffordd. Mae'n rhaid i'r trefniadau fod yn ddiogel, ni ddylent gymryd amser afresymol o hir ac ni ddylent ychwaith beri lefelau afresymol o straen.

1.21 Wrth farnu a yw trefniadau teithio yn angenrheidiol, gall yr awdurdod lleol farnu a yw plentyn yn mynychu'r sefydliad addysgol addas agosaf i'w gartref. Os nad ydyw gallai ddod i'r casgliad nad oes angen gwneud trefniadau.

## *Yr ysgol, yr Uned neu'r Sefydliad Addas Agosaf*

1.22 Mae angen i awdurdodau lleol ystyried addasrwydd yr ysgol, yr uned neu'r sefydliad, gan bwyso a mesur oedran, gallu a doniau'r plentyn, ac unrhyw anawsterau dysgu y gallai fod ganddo.

1.23 Nid dewis iaith y plentyn na'r rhiant na'r famiaith, nac ychwaith ffydd neu argyhoeddiad y plentyn neu ei riant sy'n pennu a yw ysgol yn addas. Serch hynny, mae'r Mesur (adran 10) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur.

---
[3] Daw i rym ar 1 Medi 2009.

1.24 Mae'n rhaid darparu cludiant i ysgol sydd y tu allan i ardal awdurdod lleol os mai'r ysgol honno yw'r ysgol addas agosaf ac os yw'r disgybl yn byw ymhellach na'r pellter cerdded. Awdurdod yr ardal lle y mae'r disgybl yn preswylio fel arfer sy'n gyfrifol am ddarparu cludiant, yn hytrach nag awdurdod yr ardal lle lleolir yr ysgol.

## *Dewis Rhieni a Derbyn Disgyblion i Ysgolion*

1.25 Mae Adran 86 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol alluogi rhieni i fynegi dewis o ran yr ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu. Serch hynny, nid yw caniatáu i rieni fynegi eu dewis yn gyfystyr â hawl i le mewn ysgol. Eto i gyd, os oes lleoedd ar gael, mae'n rhaid i'r awdurdod derbyn fel rheol dderbyn cais am le. Mae hyn yn golygu y gall plant sy'n byw cryn bellter i ffwrdd o ysgol sicrhau lle.

1.26 Os nad yr ysgol yw'r ysgol addas agosaf nid oes gan y disgybl fel arfer yr hawl i gludiant am ddim hyd yn oed os yw'n byw ymhellach na'r pellter cerdded. Mewn achosion o'r fath rhieni sy'n gyfrifol am wneud eu trefniadau cludiant eu hunain, er y gall awdurdod (gan ddefnyddio ei bwerau o dan adran 6 o'r Mesur) ddarparu cludiant am ddim neu gymorth â chludiant ar gyfer disgyblion o'r fath yn ôl ei ddisgresiwn.

1.27 Os na all plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol addas agosaf, a bod yn rhaid iddo o'r herwydd fynychu ysgol sydd y tu hwnt i'r terfyn o ran pellter cerdded o'i gartref, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol addas agosaf nesaf.

## *Dewis Plant*

1.28 Dylai awdurdodau lleol gofio adran 17 o Ddeddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd gan adran 53 o Ddeddf Plant 2004) sy'n nodi bod dyletswydd ar awdurdod lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant mewn angen yn ei ardal drwy ddarparu gwasanaethau addas ar eu cyfer. Mae Adran 17 o Ddeddf 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol holi beth yw dymuniadau plentyn o'r fath mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny ac ystyried y dymuniadau hynny yn ofalus cyn penderfynu pa wasanaethau (os o gwbl) y dylid eu darparu.

## *Presenoldeb Disgyblion yn yr Ysgol*

1.29 Mae Adran 444 o Ddeddf 1996 yn ei gwneud yn drosedd i riant fethu â sicrhau presenoldeb rheolaidd disgybl cofrestredig yn yr ysgol. Mae Adran 20 o'r Mesur yn diwygio adran 444 o Ddeddf 1996 drwy gynnwys isadran (4) newydd er mwyn cyfeirio at ddyletswyddau awdurdod lleol o dan y Mesur hwn. Bydd gan riant amddiffyniad i erlyniad os yw awdurdod lleol wedi methu â chyflawni dyletswydd o dan y Mesur hwn i wneud trefniadau teithio.

## *Plant sy'n Derbyn Gofal*

1.30 O dan adrannau 3 a 4 o'r Mesur mae'r un meini prawf o ran oedran a phellter yn berthnasol i blant 'sy'n derbyn gofal' ag sy'n berthnasol i blant eraill, ond nid oes

yn rhaid iddynt fynychu'r sefydliad addas sydd agosaf i'w cartref. Mater i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn fydd penderfynu i le y dylai fynd a gallai fod, er enghraifft, yn ysgol wahanol i'r un addas agosaf oherwydd angen i gynnal parhad mewn addysg neu gyswllt â brodyr a chwiorydd a ffrindiau. Mae'n rhaid i gludiant gael ei ddarparu os gwneir penderfyniad o'r fath. Mae Adran 18 o'r Mesur yn ei gwneud yn bosibl i hawlio cost gwneud y trefniadau teithio gan yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn.

## *Preswylfa Arferol*

1.31 Mae Adran 19 o'r Mesur yn amlinellu darpariaethau ar gyfer pennu preswylfa arferol person o dan amgylchiadau penodol. Os nad oes gan berson breswylfa arferol dylid ei drin fel person sy'n preswylio'n arferol yn y man lle y mae'n preswylio ar hyn o bryd.

1.32 Os oes gan blentyn neu berson ifanc fwy nag un cartref, oherwydd nad yw rhieni plentyn yn byw gyda'i gilydd ond lle y mae'r plentyn yn **byw** am gyfnod gyda phob rhiant, neu gyda rhiant a hefyd mewn cartref plant, dylid ystyried y ddau fan preswylio fel y preswylfeydd arferol at ddibenion y Mesur. Os oes mwy na dau fan o'r fath dim ond y ddau fan hynny sydd agosaf at yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach fydd yn cyfrif.

1.33 Mae 'byw' yn golygu mwy nag ymweliadau achlysurol. Dim ond trefniadau sefydlog a pharhaol ddylai gael eu hystyried. Byddai'r rhain yn cynnwys plentyn sy'n aros 2 noson ymhob wythnos ysgol gydag un rhiant a thair noson ymhob wythnos ysgol gyda'r rhiant arall, neu blentyn sy'n treulio am yn ail wythnos gyda phob rhiant. Nid yw'r ddarpariaeth ond yn berthnasol i'r cyfnodau pan fydd y plentyn/person ifanc yn derbyn addysg neu hyfforddiant h.y. yr wythnos ysgol. Nid yw'n berthnasol lle y mae plentyn yn treulio penwythnosau gyda gwahanol riant i'r un y mae'n byw gydag ef/hi yn ystod yr wythnos ysgol.

1.34 Mewn rhai achosion gallai cartref pob rhiant fod yn nes na'r pellter cerdded o 2 neu 3 milltir, felly ni fyddai dyletswydd ar awdurdod lleol o dan adran 3 i ddarparu cludiant am ddim. Mewn achosion eraill gallai cartref un rhiant fod ymhellach na'r pellter cerdded a gallai cartref y rhiant arall fod yn nes felly byddai'r ddyletswydd o dan adran 3 yn berthnasol i'r cartref sydd bellach i ffwrdd.

1.35 Ni fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i ddysgwr deithio pellter afresymol er mwyn mynychu ysgol. Dylai pawb perthnasol ystyried yn ofalus wrth ddewis yr ysgol addas agosaf ar gyfer cartrefi'r ddau riant.

1.36 Mae 'rhiant' yn y Mesur hwn yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant ond sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sy'n gofalu am y plentyn neu'r person ifanc. Byddai hyn yn cynnwys rhiant maeth neu fam gu/tad cu y mae plentyn yn byw gydag ef/hi, ond nid gwarchodwr plant na pherthynas arall nad oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant neu nad ydynt yn gofalu am blentyn.

1.37 At ddibenion y Mesur hwn, lle mae gan blentyn ddwy breswylfa arferol mewn ardaloedd dau wahanol awdurdod lleol, bydd y ddau awdurdod lleol yn gyfrifol am drefniadau teithio'r plentyn tra'i fod yn eu hardaloedd. Dylai'r awdurdodau lleol gydweithio'n agos er mwyn sicrhau y gwneir trefniadau priodol.

## *Pellter Cerdded a Ffyrdd Cerdded Diogel*

1.38 Yn y canllawiau hyn defnyddir 'pellteroedd cerdded' er mwyn cyfeirio at y pellteroedd a amlinellir yn adran 3 o'r Mesur ac sy'n golygu bod hawl i gludiant am ddim i'r ysgol. Dylai'r pellter cerdded gael ei fesur ar sail "y ffordd fyrraf sydd ar gael". Ystyrir bod ffordd 'ar gael' os yw'n ddiogel i blentyn heb anabledd nac anhawster dysgu gerdded y ffordd ar ei ben ei hun neu gyda hebryngwr pe byddai oedran y plentyn yn galw am ddarparu hebryngwr.

1.39 Os nad yw ffordd 'ar gael', ni ellir disgwyl i blentyn gerdded i'r ysgol er bod y pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na'r terfyn o ran pellter sy'n berthnasol i'w oedran. Golyga hyn fod gan y plentyn hawl i gludiant am ddim.

1.40 Wrth asesu diogelwch cymharol ffordd dylai awdurdod lleol gynnal asesiad o'r risgiau y gallai plentyn eu hwynebu ar hyd y ffordd a bennir (gan gynnwys, er enghraifft, camlesi, afonydd, ffosydd, goleuadau stryd, palmentydd a chyflymder traffig ar hyd ffyrdd, etc). Dylid asesu ffordd ar yr adeg o'r dydd ac ar ddyddiau'r wythnos pryd y byddai disgwyl i'r disgybl ei defnyddio.

1.41 Wrth gynnal yr asesiad risg mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n argymell y dylai awdurdodau lleol ddilyn canllawiau fel rhai'r Gymdeithas Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd 'Identification of Hazards and the Assessment of Risk of Walked Routes to School'[4].

1.42 Dylai asesiadau o ffyrdd fod yn rhan o ddyletswydd awdurdodau lleol i hyrwyddo mathau cynaliadwy o gludiant.

1.43 Er nad yw'r ddyletswydd i wneud trefniadau teithio yn golygu gwasanaeth o ddrws i ddrws, nid yw trefniadau sy'n golygu y byddai disgwyl i blentyn gerdded pellter afresymol o hir er mwyn dal bws gwasanaeth cyhoeddus, na thaith ar fws sy'n terfynu ymhell o'r ysgol berthnasol, yn debygol o fod yn addas. Unwaith eto, bydd yr uchafswm pellter yn dibynnu ar ystod o amgylchiadau, gan gynnwys oedran y plentyn, ei anghenion unigol a natur y ffyrdd y mae disgwyl iddo eu cerdded i'r mannau codi neu ollwng.

## *Trefniadau Cludiant Addas*

1.44 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau cludiant addas er mwyn ei gwneud yn haws i'r plentyn fynychu pob dydd y man perthnasol lle y mae'n derbyn addysg neu hyfforddiant. Nid yw trefniadau cludiant yn addas os ydynt yn peri lefelau afresymol o straen; yn cymryd amser afresymol o hir neu os ydynt yn anniogel.

[4] http://www.larsoa.org.uk/index.php

1.45 Os yw taith yn achosi cymaint o straen fel na all plentyn elwa ar yr addysg a ddarperir yn yr ysgol bernir y byddai hynny'n afresymol. Gallai taith achosi straen afresymol os byddai bws, er enghraifft, yn mynd ar daith mor anuniongyrchol fel ei bod yn cymryd dros awr a hanner i gyrraedd yr ysgol lle byddai ond yn cymryd 15 awr drwy ddilyn ffordd uniongyrchol, neu os byddai gofyn i blentyn sy'n mynychu ysgol gynradd newid bws ar ei ben ei hun yn ystod y daith.

## *Amserau Teithiau*

1.46 Mae Adrannau 3 a 4 o'r Mesur yn nodi nad yw trefniadau cludiant yn addas "os ydynt yn cymryd amser afresymol o hir". Er nad yw'r Mesur yn pennu terfyn amser ar gyfer pob taith, mae Gweinidogion Cymru o'r farn na ddylai gymryd mwy na 45 o funudau i deithio i ysgol gynradd ac na ddylai gymryd mwy na 60 o funudau i deithio i ysgol uwchradd. Gallai fod rhai amgylchiadau eithriadol pan nad yw'n bosibl cadw at y terfynau amser fel oedi yn sgil traffig mwy trwm na'r arfer, gwaith ffordd, gwyriadau a cherbydau sydd wedi torri i lawr.

1.47 Mae angen hefyd ystyried amgylchiadau, efallai mewn ardaloedd gwledig ac yn benodol yn y sector uwchradd, lle gallai'r ysgol addas agosaf fod ymhellach nag y byddai unrhyw derfyn ar amser teithio yn ei ganiatáu. O dan amgylchiadau eraill gallai plant ag anghenion arbennig, plant ag anghenion dysgu ychwanegol a hefyd blant sy'n derbyn gofal fod angen cludiant i sefydliadau cryn bellter i ffwrdd. Gallai fod rhai amgylchiadau hefyd lle na all y terfynau amser gael eu bodloni yn achos y plant hynny sy'n treulio rhan o'r wythnos gydag un rhiant a rhan arall o'r wythnos gyda rhiant arall sy'n gryn bellter o'u hysgol.

1.48 Nid yw'r gofyniad statudol sy'n pennu nad yw trefniadau'n addas os ydynt yn cymryd amser afresymol yn berthnasol i drefniadau a wneir gan awdurdodau lleol o dan adran 6 o'r Mesur, ond dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r un egwyddorion ag sy'n berthnasol i'r trefniadau hynny.

## *Cyfrifoldeb am Ofal Disgyblion sy'n Teithio i'r Ysgol*

1.49 Gallai awdurdod lleol, gweithredwr cludiant, gyrrwr ac ysgol oll fod â chyfrifoldeb o dan y gyfraith am ofal disgyblion tra'u bod mewn cerbyd neu tra'u bod yn aros i fynd ar gerbyd neu i ddod oddi arno neu tra'u bod wrthi'n gwneud hynny. Nid yw'n bosibl darparu canllawiau pendant ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ofalu am ddisgybl ar wahanol rannau'r daith rhwng y cartref a'r ysgol oherwydd bod y Llysoedd wedi barnu bod y cyfrifoldeb hwnnw'n dibynnu ar ffeithiau achos (er enghraifft pwy oedd yn gyfrifol am achos y digwyddiad – fel nam yn injan y bws, neu ddiffyg yn y ffordd neu ymddygiad disgybl).

1.50 Mae'r Mesur (adrannau 3(5) a 4(6)) bellach yn pennu nad yw trefniadau teithio yn addas os ydynt yn peri lefelau afresymol o straen, yn cymryd amser afresymol o hir neu'n anniogel. Yn gyffredinol, felly, dylai awdurdod fod yn fodlon fod trefniadau dan gontract yn ddiogel, bod prosesau i'w cael ar gyfer monitro contractau, ac y cymerir camau ar unwaith er mwyn ceisio datrys problemau. Dylai awdurdodau lleol, gweithredwyr bysiau ac ysgolion ystyried ar y cyd y risgiau sydd ynghlwm â mannau codi/gollwng ar safleoedd ysgolion neu'n union y tu allan iddynt.

Bydd canllawiau ynghylch asesu risg contractau gwasanaethau penodol ar gyfer ysgolion ar gael yn ystod 2009[5].

## *Codi Disgyblion a'u Gollwng ar Safleoedd Ysgolion*

1.51 Gall ardaloedd lle y caiff disgyblion eu codi a'u gollwng fod yn beryglus oherwydd gallant fod yn orlawn, yn brysur, yn gyfyng a gallant fod ar ffyrdd yn hytrach nag ar safleoedd ysgolion. Yn aml bydd ceir preifat yn cyrraedd neu'n gadael ar yr un pryd a gallent rannu'r ardal codi/gollwng neu fynd heibio hi. Gall y risg fod yn uwch oherwydd efallai na fydd y disgyblion yr un mor ymwybodol o beryglon ag ydyw oedolion. Mae damweiniau yn fwy tebygol os nad yw disgyblion yn cael eu goruchwylio'n ddigonol un ai rhag peryglon traffig neu rhag cael eu gwasgu wrth fynd ar fysiau neu ddod oddi arnynt.

1.52 Dylai awdurdodau lleol, ysgolion a gweithredwyr gynnal asesiadau risg ar y cyd a chymryd camau dilynol er mwyn sicrhau bod:-

- goruchwyliaeth briodol yn y mannau ar safleoedd ysgolion lle y mae disgyblion yn cynnull cyn iddynt gael eu codi a'u gollwng;
- goruchwyliaeth briodol o gilfannau bysiau lle y mae disgyblion yn cynnull oddi ar safleoedd ysgolion er mwyn cael eu codi neu eu gollwng gan wasanaethau cludiant;
- marciau ffordd clir ar gyfer ardaloedd codi;
- cerddwyr a cherbydau yn cael eu cadw ar wahân, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol;
- mannau croesi diogel; a
- bod ardaloedd codi disgyblion yn rhydd o unrhyw rwystrau.

1.53 Caiff cyngor ynghylch cynnal asesiadau risg o gludiant rhwng y cartref a'r ysgol, gan gynnwys codi disgyblion a'u gollwng, ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2009[6]. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch asesiadau risg yn gyffredinol, ac ynghylch "Workplace Transport Safety" [7].

1.54 Dylai awdurdodau lleol gysylltu ag ysgolion a gweithredwyr er mwyn sicrhau y caiff y risgiau eu hadolygu'n rheolaidd a bod gweithdrefnau clir yn eu lle fel y gall ysgolion, rhieni, disgyblion a gweithredwyr cludiant adrodd ynghylch unrhyw broblemau neu bryderon. Dylai'r rhain gael eu gwerthuso'n brydlon a dylai camau priodol gael eu cymryd ar unwaith.

[5] Fframwaith Asesu Risg Cymru Gyfan ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol http://wales.gov.uk/topics/transport/?lang=cy
[6] Fframwaith Asesu Risg Cymru Gyfan ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol http://wales.gov.uk/topics/transport/?lang=cy
[7] http://www.hse.gov.uk/pubns/indg199.pdf

1.55 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn ei bod yn arfer da fod penaethiaid yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu goruchwylio wrth iddynt gael eu codi a'u gollwng, boed ar safle ysgolion neu gerllaw. Bydd lefel yr oruchwyliaeth yn dibynnu ar yr amgylchiadau lleol ac ar oedran y disgyblion. Dylai'r pennaeth gysylltu â'r awdurdod ar unwaith ynghylch unrhyw bryderon neu faterion y tynnir ei sylw atynt.

## *Gorlenwi*

1.56 Mater i yrwyr bws yw penderfynu a yw bws yn llawn, gan wrthod caniatáu rhagor o ddisgyblion arno. Dylai'r gyrrwr neu berson arall sy'n goruchwylio disgyblion wrth iddynt gael eu codi wirio pasys bws ar gyfer pob taith. Bydd pas blynyddol â llun arno yn ei gwneud yn haws i adnabod disgyblion y mae ganddynt hawl i deithio ar y bws. Mae gorlenwi yn fwy tebygol os bydd disgyblion nad oes ganddynt hawl i deithio ar fws yn mynd arno. Gallai awdurdodau ystyried cyflwyno rheol 'dim pas, dim teithio', er mae angen defnyddio synnwyr cyffredin. Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion fod â system ar gyfer ymdrin â chamgymeriadau gwirioneddol (e.e. y defnydd o bas undydd brys) er mwyn sicrhau nad yw plant sydd wedi anghofio eu pas neu sydd wedi'i golli yn cael eu gadael ar ôl.

1.57 Wrth i awdurdodau lleol drefnu cludiant dylent ystyried disgyblion sy'n cario offerynnau cerdd neu gyfarpar chwaraeon mawr. Mae'n bwysig sicrhau bod digon o le ar eu cyfer o safbwynt diogelwch a hefyd er mwyn sicrhau nad yw disgyblion yn rhoi'r gorau i'r diddordebau hyn yn sgil anawsterau wrth deithio ag eitemau o'r fath.

## *Defnyddio Hebryngwyr ar Fysiau*

1.58 Dylai'r penderfyniad i ddefnyddio hebryngwyr adlewyrchu anghenion y disgyblion a'r risgiau sydd ynghlwm â'u hoedran, unrhyw anghenion addysgol arbennig a safonau ymddygiad cyffredinol ar y daith. Gall hebryngwyr helpu'r gyrrwr drwy dderbyn cyfrifoldeb am ymddygiad disgyblion yn ystod y daith. Dylai hebryngwyr feddu ar brofiad a hyfforddiant addas ynghylch sut i gydweithio â disgyblion a'u goruchwylio'n effeithiol, ac yn arbennig y rhai ag anghenion addysgol arbennig neu'r rhai a allai fod yn agored iawn i niwed fel y rhai sy'n derbyn gofal. Os yw'r gweithredwr cludiant yn darparu hebryngwyr, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau clir yn y contract ynghylch eu darparu, eu hyfforddi ac ynghylch monitro eu gwaith.

## *Gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol*

1.59 O dan delerau Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed (2006) caiff Cynllun fetio a gwahardd newydd ar gyfer Cymru sy'n cynnwys yr unigolion sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli â phlant neu oedolion agored i niwed, neu sy'n awyddus i weithio neu wirfoddoli gyda hwy, ei gyflwyno. Daw'r Cynllun i rym ar 12 Hydref 2009 a chaiff ei gyflwyno'n raddol dros amser er mwyn sicrhau bod y gofynion newydd yn cael eu cyflwyno'n ddidrafferth.

1.60 O fis Hydref bydd yr holl restrau penodol o safbwynt Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, y Ddeddf Amddiffyn Plant a Rhestr 99 yn cael eu disodli gan ddwy restr newydd gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol a fydd yn cynnwys manylion llawn yr holl unigolion sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant neu gydag

oedolion agored i niwed o fewn unrhyw leoliad. Golyga hyn fod y mesurau diogelu yn cael eu hestyn i gynnwys yr holl ystod o weithgareddau a amlinellir yn y Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed a bod miloedd yn ychwanegol o bobl agored i niwed yn cael eu diogelu ymhellach.

1.61 Yn ogystal, bydd dyletswydd newydd statudol ar gyflogwyr, adrannau gwasanaethau cymdeithasol, rheoleiddwyr proffesiynol a deiliaid cofrestri i gyfeirio gwybodaeth i'r Awdurdod Diogelu Annibynnol am unigolion a allai beri risg i grwpiau agored i niwed.

1.62 Bydd cam nesaf y broses gyflwyno graddol yn dechrau ym mis Gorffennaf 2010 pan ddechreuir derbyn ceisiadau oddi wrth y gweithlu perthnasol ynghyd ag elfennau monitro'r cynllun.

1.63 Bydd y Cynllun newydd yn berthnasol i hebryngwyr a hefyd y bobl sy'n gyrru cerbyd a ddefnyddir at ddiben cludo plant neu oedolion agored i niwed. Bydd hyn yn cynnwys gyrwyr tacsi a ddefnyddir gan ysgolion a chartrefi gofal er mwyn cludo plant. Bydd hefyd yn cynnwys bysiau mini a gyrwyr bysiau sy'n cludo plant ar dripiau ysgol.

1.64 Nid yw'r Cynllun newydd yn cynnwys gyrwyr bysiau sy'n gyrru cerbydau gwasanaethau cyhoeddus a allai bigo i fyny blant neu oedolion agored i niwed ar hyd ffordd. Nid yw'n cynnwys ychwaith tacsis a gaiff eu galw neu eu llogi gan blant neu oedolion agored i niwed yn annibynnol. Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun fetio a gwahardd yn www.isa-gov.org.uk/ <<<http://www.isa-gov.org.uk/>>> .

1.65 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n croesawu cyflwyno'r cynllun newydd a fydd yn sicrhau bod yr holl staff a gyflogir mewn gwasanaethau cludiant i'r ysgol dan gontract yn cael eu fetio. Fel mater o arfer da, byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n disgwyl i'r staff a gyflogir ar gyfer gwasanaethau cludiant i'r ysgol dan gontract gydymffurfio â gweithdrefnau datgeliad manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Dylai lefel y datgeliad manylach gael ei chynnwys yn y contract â gweithredwr y gwasanaeth.

## *Ôl-16*

1.66 Mae hi hefyd yn bwysig ystyried sefyllfa disgyblion o oedran chweched dosbarth. Mae Adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio pob dysgwr hyd at, ac weithiau gan gynnwys, 19 oed. Er nad oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu trefniadau cludiant ar gyfer y rhai dros 16 oed, gall awdurdodau lleol wneud hynny o dan adran 6 ac mae llawer yn gwneud hynny, a chânt eu hannog i barhau i wneud hynny, ac yn arbennig ar gyfer 'dysgwyr sy'n derbyn gofal'.

1.67 Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu llunio rheoliadau o dan y Mesur ynghylch trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n byw yng Nghymru ac sy'n mynychu cyrsiau yng Nghymru neu'n rhywle arall lle y caiff yr addysg neu'r hyfforddiant ei ariannu gan Weinidogion Cymru. Gallai'r rheoliadau gyflwyno darpariaethau tebyg i'r rhai a wneir yn y Mesur parthed plant o oedran ysgol gorfodol.

1.68 Mae'r Mesur yn diddymu adran 509AA o Ddeddf Addysg 1996, sy'n golygu na fydd yn rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru bellach gyhoeddi datganiad polisi ar wahân ar gludiant ar gyfer dysgwyr o oedran chweched dosbarth. Serch hynny, o dan Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 bydd angen i awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth am ddysgwyr ôl-16 yn yr wybodaeth sydd i'w chyhoeddi am drefniadau a pholisïau cyffredinol ynghylch teithio i fannau perthnasol ac oddi yno. (Ceir rhagor o wybodaeth am gyhoeddi gwybodaeth am deithio ar gyfer dysgwyr yn Rhan 5 o'r canllawiau hyn).

## *Newid mewn Amserau Sesiynau Ysgolion*

1.69 Mae Adran 21 o'r Mesur yn diwygio adran 32 o Ddeddf Addysg 2002 er mwyn galluogi awdurdodau lleol i newid amserau sesiynau ysgolion lle y byddai hynny'n hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy neu lle y byddai'n gwneud trefniadau teithio yn fwy effeithlon ac effeithiol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llunio rheoliadau[8] sy'n amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd awdurdodau lleol yn bwriadu newid amserau sesiynau ysgolion.

1.70 Wrth ddefnyddio'r pwerau hyn dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried yn ofalus iawn unrhyw effaith y byddai newidiadau arfaethedig i amserau sesiynau ysgolion yn ei chael ar anghenion addysgol disgyblion ac ar faterion gweithredol o fewn ysgolion. Wrth ystyried newid amserau sesiynau ysgolion dylai awdurdodau lleol gofio hyblygrwydd amserlenni gwahanol sefydliadau addysg a goblygiadau Llwybrau Dysgu 14-19.

1.71 Gall newidiadau cymharol fach i amserau gael effaith sylweddol ar dagfeydd ac ar gynaliadwyedd. Dylid disgwyl o hyd i gyrff llywodraethu bennu amserau dechrau a gorffen y diwrnod ysgol. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau'n bwyllog gan fod y rhan fwyaf o gyrff llywodraethu yn cydweithio'n dda ag awdurdodau ac yn barod i fod yn hyblyg.

## *Y Cod Ymddygiad wrth Deithio*

1.72 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan a fydd yn berthnasol i bob taith sy'n gysylltiedig â dysgu a wneir gan ddisgyblion iau nag 19 oed. Bydd y Cod yn rhan o bolisi ymddygiad cyffredinol ysgol a bydd yn orfodol cydymffurfio ag ef. Cynigir y bydd y Cod yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2009 ac y daw i rym o fis Ionawr 2010.

1.73 Lle caiff y trefniadau teithio eu gwneud gan yr awdurdod lleol, mae'r Mesur yn rhoi'r grym i awdurdodau lleol, yn unol ag amodau, dynnu yn ôl drefniadau teithio am gyfnodau penodol os ydynt yn fodlon nad yw dysgwr wedi cydymffurfio â'r Cod. Mewn achosion eraill y pennaeth fydd yn gyfrifol am gymryd camau gorfodi. Bydd rhagor o ganllawiau ynghylch y Cod a'r gweithdrefnau gorfodi ar gael maes o law[9].

---

[8] Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/w-stat.htm
[9] http://wales.gov.uk/topics/transport/?lang=cy

## *Pwerau Cyffredinol*

1.74 Mae gan Weinidogion Cymru bŵer o dan adran 15 o'r Mesur i roi arweiniad a chyfarwyddiadau. Wrth i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau o dan y Mesur, mae'n rhaid iddynt ystyried yr arweiniad a roddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru.

1.75 Yn ogystal, gallai Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau wneud trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr, neu tra'n eu gwneud, gydymffurfio â chyfarwyddyd. Gall cyfarwyddiadau o'r fath gael eu rhoi i un neu fwy o awdurdodau neu'n gyffredinol. Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ynghylch achosion unigol neu ynghylch materion polisi mwy cyffredinol. Gall y pŵer gael ei arfer os yw awdurdod lleol wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau ai peidio. Nid yw'n disodli pwerau mwy cyffredinol cyfarwyddyd sydd gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 496-497A o Ddeddf Addysg 1996 nac yn effeithio arnynt.

1.76 O dan bwerau a gynhwysir yn Neddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006, mae Consortia Cludiant Rhanbarthol yn paratoi Cynlluniau Cludiant Rhanbarthol a fydd yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, amryw strategaethau ar gyfer cludiant cyhoeddus a dewisiadau doethach sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth o gludiant i'r ysgol. Gallai Awdurdodau Lleol sy'n darparu cludiant i'r ysgol elwa ar drafod trefniadau â'r Consortia Cludiant Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod eu cynigion yn cyd-fynd â'r amryw strategaethau hyn.

1.77 Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw swyddogaethau o ran y 'consesiwn 3 am 2', deddfwriaeth ynghylch gwregysau diogelwch neu safonau cerbydau, arolygu, gorfodi neu drwyddedu cerbydau neu yrwyr. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y materion hyn.

## Rhan 2: Trefniadau Cludiant yn ôl Disgresiwn

### *Trosolwg*

2.1 Mae'r Rhan hon yn rhoi arweiniad am yr amgylchiadau hynny lle y gall awdurdodau lleol benderfynu gwneud trefniadau yn ôl disgresiwn ar gyfer y disgyblion hynny na fyddent yn gymwys fel arall i gael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol.

2.2 Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am eu polisïau ar gyfer darparu teithio yn ôl disgresiwn yn unol â Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009.

### *Pŵer Awdurdodau Lleol i wneud Trefniadau Teithio ar gyfer Dysgwyr*

2.3 Mae Adran 6 o'r Mesur yn rhoi pŵer i awdurdod lleol wneud unrhyw drefniant y teimlant ei fod yn briodol er mwyn ei gwneud yn haws i ddysgwyr deithio i'r man lle y maent yn derbyn addysg neu hyfforddiant ac oddi yno. Mae'r pŵer yn berthnasol i ddysgwr sy'n byw neu'n astudio yn ardal yr awdurdod. Gallai hyn gynnwys cludiant ar gyfer y rhai o dan 5 oed neu dros 16 oed, neu i ysgolion heblaw am yr ysgol addas agosaf - er enghraifft gallai gynnwys cludiant i ysgolion o natur grefyddol neu i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu Saesneg mewn achosion lle nad yw'r ysgol addas agosaf wedi bodloni dewisiadau rhieni o safbwynt yr ystyriaethau hyn.

2.4 Gall awdurdodau lleol ddarparu cludiant am ddim ar gyfer teithiau dros bellter cerdded llai na'r pellteroedd statudol o 2 neu 3 milltir. Mewn achosion o'r fath mae'n rhaid i'r polisi fod yn berthnasol i bob disgybl ag iddynt amgylchiadau tebyg ac sy'n byw yn ardal yr awdurdod.

2.5 Os yw awdurdod lleol yn defnyddio'r pwerau yn adran 6 o'r Mesur, mae'n rhaid iddo sicrhau bod unrhyw bolisïau yn deg, yn rhesymol a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys deddfwriaeth ynghylch cydraddoldeb a Deddf Hawliau Dynol 1998. Ni chaniateir i awdurdodau lleol wahaniaethu'n anghyfreithlon rhwng dysgwyr tra'u bod yn defnyddio eu pwerau o dan adran 6.

2.6 Mae'r Mesur hefyd yn gwahardd awdurdodau lleol rhag gwneud trefniadau teithio sy'n gwahaniaethu rhwng gwahanol gategorïau o ddysgwyr. Rhaid peidio â thrin plant o oedran ysgol gorfodol, mewn sefydliadau nad ydynt yn ysgolion a gynhelir ond a restrir yn adran 1(4) o'r Mesur, yn llai ffafriol na phlant o'r un oedran mewn ysgolion a gynhelir. Rhaid peidio ychwaith â thrin dysgwyr eraill sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant amser llawn mewn sefydliadau nad ydynt yn ysgolion a gynhelir (ond a restrir yn adran 1(4) o'r Mesur) yn llai ffafriol na dysgwyr o'r un oedran mewn ysgolion a gynhelir. O'r herwydd, os bydd awdurdod lleol yn gwneud trefniadau teithio ar gyfer person 17 oed i fynychu ysgol a gynhelir mae'n rhaid iddo drin dysgwr o oedran tebyg sy'n mynychu Sefydliad Addysg Bellach yn yr un modd. Yn yr un modd, rhaid peidio â gwahaniaethu rhwng y rhai o'r un oedran sydd ag anawsterau dysgu, anabledd neu sy'n 'derbyn gofal' gan awdurdod lleol ac sy'n mynychu sefydliadau heblaw am ysgolion a gynhelir a'r rhai sy'n mynychu ysgolion a gynhelir.

## *Lwfansau a Chynlluniau Teithio Rhatach*

2.7 Gall awdurdodau helpu'r disgyblion hynny nad ydynt yn darparu cludiant am ddim ar eu cyfer mewn amryw o ffyrdd. Er enghraifft, os bydd seddi gwag ar fws, gall awdurdod ganiatáu i ddisgyblion nad ydynt yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim dalu i deithio ar fws ysgol. Bydd angen i awdurdodau lleol hysbysu'r rhieni na fydd y trefniant hwn ond ar gael ar yr adegau hynny pan na fydd angen y seddau ar y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cludiant i'r ysgol am ddim.

2.8 Gall awdurdodau lleol ad-dalu cost darparu cludiant i rieni neu ddisgyblion naill ai'n llwyr neu'n rhannol. Defnyddir y trefniant hwn fel arfer pan nad oes gwasanaeth cludiant cyhoeddus addas ar gael, neu lle y byddai darparu cerbyd o dan gontract ar gyfer nifer bach o ddisgyblion yn ddefnydd llai effeithiol o adnoddau o'i gymharu â gwneud trefniadau unigol ar gyfer pob disgybl. Os ydynt yn bwriadu gwneud hyn, mae'n rhaid i awdurdodau lleol nodi hynny'n glir yn eu polisïau a sicrhau bod y rhieni a'r athrawon yn deall beth yw'r trefniadau ar gyfer talu ac ad-dalu.

## *Cludiant i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg*

2.9 Mae adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio a bydd awdurdodau lleol effeithiol yn ystyried dewis y rhieni o ran addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg wrth benderfynu a fyddant yn darparu cludiant i'r ysgol am ddim neu gludiant a gynorthwyir. Yn ogystal, mae adran 10 o'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru ac ar Weinidogion Cymru i "hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn". Dylai awdurdodau nodi'n glir yn eu dogfennau cyfansawdd ynghylch derbyn disgyblion i'r ysgol beth yw eu polisi ar ddarparu cludiant am ddim neu gludiant a gynorthwyir i ysgolion sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

2.10 Mae'r ddyletswydd hon yn cyd-fynd â'r hyn a nodir yn adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (dyletswydd Gweinidogion Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg) ac yn adeiladu ar gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog fel y nodwyd yn "Iaith Pawb". Mae adran 5 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg gan bennu'r mesurau y byddant yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Mae gan bob awdurdod lleol hefyd Gynlluniau Addysg Gymraeg sy'n rhan o'r prif gynllun iaith ac sydd wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Cynlluniau Addysg Gymraeg yn delio'n benodol gyda nodau a thargedau'r awdurdodau ac yn gwneud darpariaeth addysgol sy'n datblygu sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr ac sy'n cynnig dewis o ran y defnydd o iaith.

2.11 O fewn y cyd-destun ehangach hwn, mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â sut y gall awdurdodau lleol fodloni'r ddyletswydd newydd hon i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.12 Mae yna amrywiaeth o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru yn adlewyrchu'r galw, y cyfleoedd a'r anghenion a geir yn lleol. Felly, mewn rhai ardaloedd ceir ysgolion sy'n addysgu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mewn ardaloedd eraill ceir ffrydiau cyfrwng Cymraeg (neu ddosbarthiadau) o fewn ysgolion sydd hefyd yn cynnig addysg drwy gyfrwng y Saesneg. Bwriad y ddyletswydd yn y Mesur yw cefnogi'r amrywiaeth hwn yn y ddarpariaeth, sy'n ffrwyth gwybodaeth leol a phenderfyniadau mewn ymateb i amgylchiadau a'r galw yn lleol.

2.13 Hoffai Gweinidogion Cymru weld y patrwm hwn o ddarpariaeth yn parhau, patrwm sy'n ymateb i ddewis y rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg ac i amgylchiadau lleol. Gall cludiant i'r ysgol chwarae rhan bwysig o ran hwyluso dewis y rhieni. Gall dewis ysgolion cyfrwng Cymraeg olygu bod gan y disgybl daith lawer hirach yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny lle nad oes llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Oni bai y caiff cludiant am ddim ei ddarparu, y rhieni fyddai fel arfer yn gorfod talu'r gost. Yn gyffredinol, o dan yr amgylchiadau hyn, mae gan yr awdurdodau o dan sylw bolisïau clir ac maent yn defnyddio'u disgresiwn i ddarparu cludiant am ddim hyd yn oed pan nad yr ysgol Gymraeg a ddewiswyd yw'r ysgol agosaf.

2.14 Bydd y ddyletswydd hon hefyd yn berthnasol o dan unrhyw reoliadau y gallai Gweinidogion Cymru eu gwneud o dan adran 7 o'r Mesur am drefniadau teithio i ddysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 ac unrhyw reoliadau o dan adran 8 o'r Mesur mewn perthynas â theithio i gael addysg feithrin.

2.15 Mae'r camau breision a gymerwyd gan lawer o awdurdodau yng Nghymru i sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ymateb i alw'r rhieni a, lle yr ystyrir bod angen, i drefnu cludiant am ddim yn ôl disgresiwn i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dangos, o'n safbwynt ni, bod awdurdodau yng Nghymru eisoes yn cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd hon. Mae'r dosbarthiad amrywiol o ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r patrymau amrywiol yn y ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg y cyfeiriwyd ato uchod yn golygu nad yw'r un mesurau teithio o reidrwydd yn addas i bob ardal, ac nid yw Gweinidogion Cymru yn barod i ddeddfu ymhellach ar hyn o bryd ar y trefniadau ar lefel leol.

2.16 Serch hynny, petai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i drefniadau teithio i ddysgwyr a'r newidiadau hynny'n lleihau'r nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg neu yr ymddengys y byddai'n arwain at leihad yn nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg byddai Gweinidogion Cymru yn barod i ddefnyddio darpariaethau eraill yn y Mesur er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yn newid. Byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried cyhoeddi cyfarwyddiadau o dan adran 15 petai'n ymddangos bod y newidiadau yn y ddarpariaeth o gludiant i ddysgwyr yn effeithio ar effeithiolrwydd neu ddichonolrwydd ysgol cyfrwng Cymraeg. Gallant hefyd wneud rheoliadau o dan adran 3 (9) yn pennu amodau newydd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparu cludiant i ysgolion sy'n darparu addysg drwy gyfrwng yr iaith sy'n bodloni dewis y rhiant neu'r disgybl.

2.17 Byddai arferion da o ran y ddyletswydd i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys y canlynol:-

a) ystyried dymuniad y disgyblion a'r rhieni pan fydd awdurdodau lleol yn asesu anghenion teithio dysgwyr o dan adran 2 o'r Mesur (er nad yw'r mater hwn wedi'i restru fel mater penodol yn yr adran honno [10]);

b) ystyried y goblygiadau teithio fel rhan o bolisi cyffredinol yr awdurdod lleol ar yr iaith Gymraeg a nodau ac amcanion eu Cynllun Addysg Gymraeg;

c) lle y maent eisoes yn gwneud hyn, defnyddio'r pŵer yn ôl disgresiwn yn adran 6 o'r Mesur er mwyn parhau i ddarparu cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ystyried yn ofalus iawn a fyddai codi tâl am y cludiant yn gwneud pobl yn gyndyn i gael addysg Gymraeg;

d) rheoli'n ofalus y trefniadau teithio sy'n gysylltiedig â throsglwyddo'r disgybl o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn benodol oherwydd gallai hyn olygu gwneud trefniadau teithio y tu allan i'r sir mewn nifer o awdurdodau;

e) sicrhau bod anghenion y plant yn gyffredinol yn cael eu hystyried fel bod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig, er enghraifft, hefyd yn cael eu trin yn gyfartal o safbwynt ieithyddol;

f) darparu gwybodaeth ddwyieithog ar gyfer rhieni a disgyblion ynghylch cludiant ac agweddau eraill ar y trefniadau derbyn i'r ysgol mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg;

g) peidio â gweithredu na chynghori mewn unrhyw ffordd a fyddai'n difrïo dysgwyr sydd eisiau derbyn addysg neu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

## *Cludiant i Ysgolion Enwadol*

2.18 Mae adran 9 o Ddeddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i roi ystyriaeth i'r egwyddor cyffredinol y dylai disgyblion dderbyn eu haddysg yn unol â dymuniad eu rhieni cyn belled ag y bo hynny'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant effeithiol ac yn osgoi gwariant cyhoeddus afresymol. O'r herwydd, mae gan nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru bolisi o ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion eglwysig ac sy'n byw y tu hwnt i'r pellter cerdded statudol a bennwyd yn y Mesur. Datblygwyd y polisïau hyn er mwyn bodloni amgylchiadau ac anghenion lleol. Bydd adran 6 o'r Mesur yn caniatáu i awdurdodau lleol barhau i ddarparu cludiant o'r fath ac mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl mai dyma fydd yn digwydd.

2.19 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn yr un modd â'r awdurdodau lleol, yn cydnabod gwerth a rôl addysg sy'n seiliedig ar ffydd ac mae'n awyddus i weld awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio'u pwerau disgresiwn i wneud trefniadau cludiant sy'n ystyried dewisiadau rhieni o ran ysgolion o natur grefyddol. Mae hyn yn

---

[10] Mae hi eisoes yn ofynnol i awdurdodau lleol, o dan adran 9 o Ddeddf Addysg 1996, i ystyried yr egwyddor gyffredinol y dylai disgyblion gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni lle y mae hynny'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant effeithlon ac yn osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.

adlewyrchu'r polisi presennol ar yr hawl i gael cludiant am ddim ac ar hyn o bryd nid yw Gweinidogion Cymru yn barod i ddeddfu ar y trefniadau ar lefel leol. Serch hynny, petai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i'r trefniadau teithio i ddysgwyr ar lefel leol a fyddai'n cael effaith andwyol ar y dewis, byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried camau gweithredu megis canllawiau, cyfarwyddiadau neu reoliadau pellach.

2.20 Os yw awdurdod yn darparu cludiant am ddim neu gludiant â chymhorthdal i ysgolion eglwysig, mae'n hollbwysig nad yw'n gwahaniaethu. Er enghraifft os mai polisi'r awdurdod yw darparu cludiant am ddim i ysgolion enwadol, rhaid hefyd darparu cludiant am ddim i ysgolion Catholig Rhufeinig ac ysgolion yr Eglwys yng Nghymru o dan amgylchiadau tebyg, hyd yn oed os yw'n golygu darparu cludiant i ysgol y tu allan i ardal yr awdurdod. Yn achos ysgolion yr Eglwys yng Nghymru, ni ddylai'r awdurdod lleol wahaniaethu rhwng ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion gwirfoddol a reolir. Mae'n rhaid i awdurdod nodi'n glir mewn dogfennau cyfansawdd ynghylch derbyn disgyblion i'r ysgol unrhyw bolisi sydd ganddo ar gyfer darparu cludiant am ddim neu gludiant a gynorthwyir i ysgolion enwadol.

## *Cludiant ar gyfer Plant O Dan yr Oedran Ysgol Statudol*

2.21 Nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan y gyfraith ddarparu cludiant i'r ysgol am ddim i blant o dan bump oed, ond efallai y byddant yn darparu cludiant am ddim ar eu cyfer. Mae adran 8 o'r Mesur yn bŵer i wneud rheoliadau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru greu darpariaeth am drefniadau teithio ar gyfer plant oedran meithrin. O dan y pŵer hwn fe allai fod yn ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau teithio ar gyfer plant o dan yr oedran ysgol gorfodol i'r mannau lle y maent yn derbyn addysg feithrin ac oddi yno. Gallai'r rheoliadau hyn greu darpariaeth sy'n debyg i'r hyn a geir yn y Mesur ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol a'i gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu'r wybodaeth a'r cymorth y byddai'n rhesymol i'r awdurdod lleol ofyn amdanynt.

## *Codi Tâl am Gludiant*

2.22 Ni all awdurdodau lleol godi tâl am drefniadau cludiant y mae'n **ofynnol** iddynt eu gwneud ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol (o dan adran 3 a 4 o'r Mesur), ac eithrio mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal lle y gall adennill costau oddi wrth awdurdod arall (o dan adran 18 o'r Mesur).

2.23 Pan fydd yr awdurdod lleol yn defnyddio ei ddisgresiwn i wneud trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr (o dan adran 6), gellir codi tâl am y trefniadau hyn.
O safbwynt dysgwyr nad ydynt o oedran ysgol gorfodol, ni chyfyngir ar y tâl y gellir ei godi. O ran plant o oedran ysgol gorfodol, mae'n rhaid codi tâl yn unol ag adrannau 455 a 456 o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'u diwygiwyd gan adran 22 o'r Mesur). Mae'r gallu i godi tâl neu i dalu holl dreuliau teithio dysgwr neu ran ohonynt yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran sefydlu trefniadau teithio sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol a bennir gan adrannau 3 a 4 o'r Mesur.

2.24 Mae Adran 6 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 yn cynnwys darpariaeth yn ei gwneud yn orfodol i gofrestru gwasanaethau bws lleol â’r Comisiynydd Traffig. Mae’n rhaid i AALlau gofrestru pob gwasanaeth sy’n cludo teithwyr sy’n talu i deithio (o dan adran 46 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981) ac mae’n rhaid i weithredwyr dan gontract gofrestru unrhyw wasanaethau sy’n cludo am dâl ddisgyblion nad oes ganddynt hawl i gludiant am ddim i’r ysgol. Mae Adran Drafnidiaeth y DU yn bwriadu llunio Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio sy’n gwaredu’r gofyn i gofrestru lle mai disgyblion neu bobl eraill sy’n gysylltiedig ag ysgol yw’r unig deithwyr sy’n talu am eu tocynnau. Ni wyddys eto amseriad y Gorchymyn hwn.

# Rhan 3: Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig

## *Trosolwg*

3.1 Mae'n rhaid i awdurdod lleol ystyried anghenion addysgol arbennig disgybl wrth wneud trefniadau cludiant i'r ysgol.

## *Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anableddau*

3.2 Mae'n rhaid i awdurdod lleol ystyried anghenion addysgol arbennig disgybl, os oes ganddo ddatganiad AAA neu beidio, wrth benderfynu pa un yw'r ysgol addas agosaf. Yn aml mae'r ysgol sy'n addas ar gyfer disgyblion o'r fath ymhellach i ffwrdd na'r ysgol leol agosaf a bydd gan ganran uchel o'r disgyblion sydd ag AAA hawl i dderbyn cludiant am ddim. Bydd gofynion cludiant y disgyblion hynny sydd ag AAA neu anabledd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol a'r ffordd y mae'n rhaid iddynt ei theithio. Os na all disgybl gerdded i'r ysgol yn sgil natur ei anghenion addysgol arbennig neu anabledd mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol hyd yn oed os yw'r pellter yn llai na'r terfyn statudol (adran 4 o'r Mesur).

3.3 Dylai awdurdodau lleol fod â pholisi clir a chyson ar gludiant i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anableddau a fyddai'n cynnwys, er enghraifft, gyflyrau fel anhwylderau ar y sbectrwm awtistig lle y gall newid y drefn reolaidd achosi cryn straen. Os oes angen cyngor ymarferol ar awdurdodau gallent ystyried dogfen y Comisiwn Archwilio 'Improving Mainstream Home–to–School Transport'[11].

3.4 Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru[12] yn amlinellu'r materion sydd i'w hystyried gan awdurdodau wrth iddynt ddarparu cludiant ar gyfer disgyblion sydd â datganiad AAA. Dylai awdurdod adolygu'n rheolaidd hawl y disgybl ynghyd â'i anghenion o ran cludiant. Ar gyfer y disgyblion hynny sydd â datganiad, efallai y gellir gwneud hynny fel rhan o adolygiad blynyddol o'r datganiad, os yw'r datganiad yn cyfeirio'n benodol at faterion cludiant ai peidio.

3.5 Awgrymir bod polisïau'r awdurdodau ar ddarparu cludiant ar gyfer disgyblion sydd ag anableddau neu AAA eisoes yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac y dylai'r materion canlynol, lle y bo hynny'n briodol, hefyd gael eu hystyried yn ystod y broses dendro ar gyfer y contractau:

- grwpiau o ddisgyblion sydd wedi'u cynnwys yn y polisi a sut y caiff yr hawl i dderbyn cludiant am ddim ei asesu;
- darparu hebryngwyr;
- cludiant i ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig a chyfleusterau preswyl;
- hwyluso dewis y rhieni;

[11] http://www.audit-commission.gov.uk/Products/NATIONAL-REPORT/F624E5F1-A7E4-419a-94BA-7DF2FC096CE2/goingplacesschool.pdf

[12] Ailargraffwyd ym mis Ionawr 2004 (ISBN 0 7504 2757 4) (paragraffau 8:87 i 8:90) [Cod Ymarfer AAA]

- codi tâl am leoedd gwag ar gludiant sydd wedi'i neilltuo ar gyfer disgyblion nad oes ganddynt hawl i gludiant am ddim;
- safonau ar gyfer staff a cherbydau, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer amddiffyn plant;
- arferion da o ran cludo plant sydd mewn cadeiriau olwyn neu seddau arbennig;
- hyfforddiant ar gyfer gyrwyr ac hebryngwyr ar sut i drin disgyblion sydd ag anableddau yn gyfartal a chyfle i hebryngwyr gael hyfforddiant ychwanegol penodol;
- hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gyrru ac hebryngwyr i ddefnyddio cyfarpar arbennig a chyfarpar cyfathrebu i gefnogi disgyblion a rheoli'u hymddygiad;
- apeliadau yn erbyn gwrthod ceisiadau am gludiant am ddim;
- gweithdrefnau cwyno;
- trefniadau ar gyfer gwasanaethau monitro, gan gynnwys y cyswllt rhwng y rhieni a'r ysgol ac adborth oddi wrthynt.

3.6 Fel rhan o'r gweithdrefnau ar gyfer tendro, mae'n rhaid i awdurdodau gofio eu dyletswyddau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 mewn perthynas â data personol sensitif[13]. Ni ddylai dogfennau tendro restru'r disgyblion sydd i'w cludo nac ychwaith wybodaeth y gellid ei defnyddio ar gyfer eu hadnabod.

3.7 Gan ddibynnu ar anghenion y disgybl, dylai awdurdodau gydweithio gydag ysgolion a gweithredwyr i sicrhau bod gwybodaeth fanwl ond cyfrinachol ar gael er mwyn gwneud y ddarpariaeth briodol. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am:-

- bresenoldeb y disgybl: pa ysgol y mae'n ei mynychu ac ar ba ddiwrnodau ac amserau y mae'n bresennol;
- anghenion y disgybl o ran goruchwylio, neu'r gofynion am staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i reoli anghenion o ran ymddygiad neu anghenion eraill;
- darparu ar gyfer cadeiriau olwyn – er enghraifft casglu'r manylion am wneuthuriad a model cyfarpar y disgybl er mwyn sicrhau bod y cerbyd a fydd yn ei gludo yn addas a bod y gyrrwr neu'r hebryngwr wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r cyfarpar;
- seddau neu harneisiau arbennig;
- gofynion o ran cymorth arbennig; er enghraifft, codi neu helpu disgyblion i mewn neu allan o gerbydau;
- anghenion meddygol/meddyginiaeth;
- mynediad cyfyngedig i gyfeiriadau neu bobl yn sgil gorchymyn llys; a
- rhifau ffôn mewn argyfwng.

[13] http://www.ico.gov.uk/upload/documents/library/data_protection/practical_application/guidance_on_data_security_breach_management.pdf

# Rhan 4: Cynllunio Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol

## *Trosolwg*

4.1 Mae Rhan 4 y canllawiau hyn yn amlinellu cyfarwyddyd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch sut y dylai awdurdodau lleol reoli a monitro gwasanaeth cludiant effeithiol, diogel ac effeithlon rhwng y cartref a'r ysgol.

## *Cynllunio Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol*

4.2 Gall awdurdodau lleol, yn ôl eu disgresiwn, bennu sut y dylent wneud yr union drefniadau cludiant y maent yn barnu eu bod yn addas ar gyfer anghenion disgyblion cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Gall cludiant rhwng y cartref a'r ysgol gael ei ddarparu drwy, er enghraifft:-

- gerbydau dan gontract sy'n darparu gwasanaeth penodedig rhwng y cartref a'r ysgol;
- trefniadau sy'n caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio cludiant cyhoeddus (trenau, bysiau, gweithredwyr cludiant cymunedol ynghyd â thacsis);
- talu lwfans milltiroedd neu lwfans beicio i ddisgyblion neu rieni, neu ad-dalu eu costau; neu
- awdurdodau lleol yn defnyddio eu cerbydau eu hunain.

4.3 Bydd yr union drefniadau yn dibynnu ar anghenion disgyblion ac ar ddaearyddiaeth yr ardal leol. Dylai trefniadau o ran cludiant i'r ysgol gyd-fynd â chyfrifoldebau cludiant eraill awdurdodau lleol fel y ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau bws y mae angen cymdeithasol amdanynt ynghyd â chynlluniau a pholisïau Consortia Cludiant Rhanbarthol.

4.4 Bydd llawer o faterion sy'n gyffredin rhwng ardaloedd gwahanol awdurdodau lleol a dylai awdurdodau rannu gwybodaeth, arferion da a hefyd ystyried cyfleoedd ar gyfer trefniadau ar y cyd lle y gallai hynny arwain at wella gwasanaethau ar gyfer disgyblion a'r cyhoedd. Mae cydweithredu yn bwysig ac mae adran 17 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth neu gymorth i'w gilydd y byddai'n rhesymol iddynt ofyn amdano fel y gallant ymgymryd ag asesiadau o anghenion a gwneud trefniadau teithio. Bydd hyn yn sicrhau yr ymgymerir â swyddogaethau mewn modd effeithiol pan fydd dysgwyr yn teithio rhwng ardaloedd gwahanol awdurdodau neu pan fydd plentyn yn byw o fewn ardaloedd dau wahanol awdurdod.

4.5 Mae Adran 17 hefyd yn rhoi dyletswydd ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach i gydweithredu ag awdurdod lleol. Mae'n rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall sydd ei angen ar yr awdurdod lleol fel y gall ymgymryd â'i ddyletswyddau o dan y Mesur. Mae'n rhaid i benaethiaid hefyd, yn ogystal â darparwyr hyfforddiant a darparwyr eraill, roi gwybodaeth a chymorth i

awdurdodau lleol fel y gallant gyflawni eu swyddogaethau o ran gorfodi'r cod ymddygiad[14].

4.6 Mae'r dull hwn o weithio yn cyd-fynd ag ysbryd 'Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru' a'r 'Adolygiad o Wasanaethau a Ddarperir yn Lleol' sy'n pwysleisio y dylai darparwyr gwasanaethau cyhoeddus gydweithredu lle y bydd hynny'n arwain at welliannau ar gyfer y defnyddiwr neu'n gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon.

4.7 Ar lefel leol dylai awdurdod gynllunio cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar y cyd ag ysgolion a sefydliadau addysgol eraill. Dylai geisio cyfleoedd ar gyfer trefniadau sydd wedi'u cydgysylltu a allai arwain at fanteision o ran effeithlonrwydd costau a lleihau tagfeydd traffig.

4.8 Mae adran 11 o'r Mesur yn benodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau a Gweinidogion Cymru hyrwyddo'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy wrth iddynt ymgymryd â'u swyddogaethau o dan y Mesur. Golyga hyn y dylai awdurdod lleol ystyried cynaliadwyedd wrth asesu anghenion ac wrth wneud trefniadau teithio. Er enghraifft, gallai hyn olygu annog teithwyr i deithio ar fws yn hytrach nag mewn car ynghyd â hyrwyddo cerdded a beicio. Diffinnir dulliau teithio cynaliadwy fel rhai y cred yr awdurdod neu Weinidogion Cymru y gallent wella lles corfforol y bobl sy'n eu defnyddio a/neu les amgylcheddol holl ardal yr awdurdod lleol neu ran ohoni, yn achos awdurdod, neu Gymru gyfan neu ran ohoni yn achos Gweinidogion Cymru.

4.9 Dylai awdurdodau lleol annog ysgolion i baratoi cynlluniau teithio i'r ysgol a fydd yn amlinellu ystod o fesurau er mwyn lleihau tagfeydd ac annog dewisiadau teithio mwy cynaliadwy. Bydd angen i gynlluniau teithio ysgolion unigol gael eu teilwra i amgylchiadau lleol a dylent gynnwys manylion mesurau arfaethedig a fyddai'n gwneud y dull o deithio i'r ysgol ac oddi yno yn fwy cynaliadwy ac yn fwy diogel. Gallai'r cynllun gynnwys mesurau 'caled' fel gostegu traffig, creu ffyrdd diogel, mannau diogel ar gyfer parcio beiciau, loceri, cawodydd a chyfleusterau newid ynghyd â mesurau 'meddal' fel hebryngwyr croesfannau, bysiau cerdded, trenau beicio, hyfforddiant beicio a gweithgareddau o fewn yr ystafell ddosbarth. Mae cynyddu'r defnydd o fysiau a'i annog yn fesur arall y gellid ei gynnwys yn y cynllun. Dylid hefyd gynnwys amserlen fanwl ar gyfer gweithredu, cyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir ynghyd ag opsiynau o ran cyllid.

## *Contractau ar gyfer Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol*

4.10 Mewn sawl rhan o Gymru mae contractau penodedig rhwng awdurdodau lleol a gweithredwyr cludiant yn agweddau canolog ar drefniadau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Gall awdurdod lleol ymrwymo i wasanaethau dan gontract y mae'n barnu eu bod yn bodloni anghenion disgyblion. Dylai awdurdod brofi'r farchnad yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth am arian a dylai gadw at arferion gorau o ran caffael.

[14] Cynigir y bydd y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn dod i rym ym mis Ionawr 2010.

4.11 Yn aml mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng hyd contract, oedran a safon y cerbydau y mae contractwr yn barod i'w cynnig a faint y mae'r gweithredwr yn barod i'w fuddsoddi mewn cyfleoedd hyfforddi ar gyfer gyrwyr a hebryngwyr.
Yn gyffredinol, mae contractwyr yn fwy tebygol o gynnig cerbydau iau o safon uwch os oes ganddynt gontract hirach, gan y byddent yn elwa fwy ar eu buddsoddiad. Mae contractwyr hefyd yn fwy tebygol o fuddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer staff os oes sicrwydd y bydd y sgiliau hynny'n ddefnyddiol am gyfnod hirach. Mater i awdurdod lleol yw ceisio sicrhau'r cydbwysedd pan fydd yn gwahodd tendrau ar gyfer contract ac yn gwerthuso ymatebion gan weithredwyr. Serch hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau y rhoddir blaenoriaeth uchel i sicrhau gwasanaeth o'r radd flaenaf.

4.12 Dylai'r broses o wahodd tendrau a rheoli contractau yn llwyddiannus gynnwys:-

- meini prawf gwrthrychol ar gyfer dewis contractwyr, yn unol ag arferion gorau o ran sicrhau gwerth am arian a chaffael;
- manylebau clir ynghylch y safonau sy'n ofynnol (e.e. materion fel y math o gerbydau i'w defnyddio a'u hoedran, y ddarpariaeth o gyfarpar fel gwregysau diogelwch a Theledu Cylch Cyfyng);
- manyleb ynghylch rolau a chyfrifoldebau contractwyr, gyrwyr a'r ddarpariaeth o unrhyw hebryngwyr;
- gweithdrefnau ar gyfer casglu, gwerthuso a chadw gwybodaeth a sicrhau ei bod ar gael (fel gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, trwyddedau gweithredwyr, trwyddedau gyrwyr, tystysgrifau MOT);
- hyfforddiant ar gyfer gyrwyr a staff eraill perthnasol contractwyr;
- cwblhau asesiadau risg ar gyfer y daith rhwng y cartref a'r ysgol;
- gweithdrefnau yn galluogi contractwyr i ddwyn sylw'r awdurdod a/neu'r ysgolion at faterion penodol;
- pennu amlder y gweithgareddau monitro y gallai awdurdod lleol, neu ei asiantiaid, ymgymryd â hwy a'r mathau ohonynt (fel ymweliadau a drefnwyd yn unol â rhaglen, gwiriadau ar hap, ymchwiliadau i gwynion, a chyswllt ag ysgolion, rhieni a disgyblion);
- cyfnewid gwybodaeth ag asiantaethau allanol (fel yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) a'r Comisiynydd Traffig); a
- threfniadau ar gyfer monitro a gwerthuso'r modd y cyflenwir y gwasanaeth, ac ar gyfer cymryd camau os cred awdurdod lleol fod angen gwneud hyn.

4.13 Mae darpariaethau adran 88 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau, er budd trethdalwyr lleol, y gwerth gorau am arian o wariant ar gludiant cyhoeddus ar gyfer teithwyr yn gyffredinol.

## *Costau Rheoli*

4.14 Dylai'r holl drefniadau ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, sut bynnag y'i darperir, gael eu monitro a'u gwerthuso'n rheolaidd. Dylai holl adrannau awdurdodau lleol y mae ganddynt ddiddordeb mewn materion cludiant, ac awdurdodau cyfagos, gyfnewid gwybodaeth. Bydd cynllunio trylwyr, contractio da a phrosesau wedi'u symleiddio ar gyfer rheoli contractau yn gwneud trefniadau yn fwy effeithlon ac effeithiol. Dylai awdurdodau lleol ystyried:-

- cyflwyno contractau hirach sy'n rhoi rhagor o sicrwydd i weithredwyr ac sy'n eu hannog i fuddsoddi mewn cerbydau ac mewn hyfforddiant ar gyfer eu staff;
- cynllunio ategol sy'n dwyn ynghyd gludiant i'r ysgol a threfniadau cludiant a gyflwynwyd gan wasanaethau eraill awdurdodau lleol neu ddarparwyr fel y sector gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol, neu'r awdurdod iechyd;
- contractau sy'n cynnig hyblygrwydd o ran cynllunio ffyrdd er mwyn arbed milltiroedd neu amser a sicrhau y gwneir y defnydd gorau o gerbydau; a
- sut i wneud y broses dendro a rheoli contractau yn syml fel nad yw gweithredwyr newydd a/neu fach yn cael eu darbwyllo i beidio â chyflwyno tendr.

# Rhan 5: Cyfathrebu â Defnyddwyr ac Ysgolion

## *Trosolwg*

5.1 Mae rhan 5 y canllawiau yn amlinellu'r wybodaeth y dylid ei darparu i rieni, disgyblion ac ysgolion mewn perthynas â chludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

## *Cyhoeddi Polisïau Cludiant Ysgolion a Gwybodaeth ar gyfer Rhieni*

5.2 Mae paragraffau 8, 19 a 20 o Atodlen 1 i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 wedi'u dirymu gan Reoliadau Gwybodaeth am Deithio i Ddysgwyr (Cymru) 2009. Mae Rheoliadau 2009 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am y trefniadau teithio a wnaed o dan y Mesur a sicrhau bod y cyfryw wybodaeth ar gael. Maent yn pennu, nid yn unig pa wybodaeth y bydd hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ei chyhoeddi ond hefyd pa bryd ac ar ba ffurf y dylid cyhoeddi'r wybodaeth a'i rhoi i rieni/gwarcheidwaid, dysgwyr, cyrff llywodraethu, penaethiaid a/neu bobl eraill.

5.3 Mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol gyhoeddi'r wybodaeth ganlynol:-

- y polisi cyffredinol ar ddarparu cludiant am ddim;
- y polisi cyffredinol ar unrhyw drefniadau teithio a wneir ar gyfer dysgwyr na ddarperir cludiant am ddim ar eu cyfer;
- o dan ba amgylchiadau y telir treuliau teithio rhesymol;
- trefniadau a pholisïau o safbwynt dysgwyr ag anableddau/anawsterau dysgu;
- gwybodaeth am sut i wneud ymholiadau/cwynion ynghylch trefniadau teithio, ac unrhyw weithdrefn apelio gan awdurdod lleol; ac
- unrhyw wybodaeth arall y cred yr awdurdod lleol y byddai o ddefnydd ar gyfer dysgwyr yn ei ardal am drefniadau teithio a wneir gan sefydliadau eraill.

5.4 Mae'n rhaid i'r wybodaeth fod ar gael erbyn 1 Hydref, yn y flwyddyn academaidd cyn yr un y mae'r wybodaeth yn cyfeirio ati. Mae'n rhaid darparu'r wybodaeth:-

- ar wefan yr awdurdod lleol;
- yn swyddfeydd yr awdurdod lleol;
- ymhob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol,
- mewn llyfrgelloedd cyhoeddus;
- mewn unrhyw fan arall perthnasol y gallai dysgwyr yn yr ardal fod yn ystyried ei fynychu; a

- bydd yn rhaid ei rhoi i rieni disgyblion sydd yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol ac a allai drosglwyddo i ysgol arall a gynhelir gan yr awdurdod lleol (nid oes ond angen i'r awdurdod lleol ond roi'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r ysgol y gallai'r disgybl drosglwyddo iddi).

5.5 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd ddarparu ar gais corff llywodraethu, pennaeth, rhiant plentyn neu unrhyw ddysgwr arall yn ardal yr awdurdod lleol yr wybodaeth ganlynol:-

- gwybodaeth am asesu anghenion teithio'r dysgwr;
- gwybodaeth am benderfyniadau ynghylch addasrwydd trefniadau cludiant neu deithio lle y mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio;
- gwybodaeth am benderfyniadau ynghylch a yw ffordd 'ar gael';
- gwybodaeth am benderfyniadau ynghylch a yw trefniadau teithio yn angenrheidiol er mwyn hwyluso presenoldeb y plentyn bob dydd yn y man perthnasol lle y mae'n derbyn addysg neu hyfforddiant (adran 4(1) o'r Mesur); a
- gwybodaeth am benderfyniadau ynghylch gwneud trefniadau teithio gan ddefnyddio eu pwerau disgresiwn (adran 6 o'r Mesur).

5.6 Mae'n hollbwysig y gall rhieni/gwarcheidwaid ddeall eu hopsiynau ac unrhyw oblygiadau o ran cost sydd ynghlwm â'r ysgol y maent yn ei dewis ar gyfer eu plentyn. O'r herwydd dylai awdurdodau lleol roi gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid am drefniadau cludiant fel rhan o'r wybodaeth a ddarperir am dderbyn disgyblion i'r ysgol, neu'n ychwanegol ati.

5.7 Yn aml ceir gorgyffwrdd rhwng gwaith adrannau addysg a chludiant yr awdurdodau lleol o ran cludiant i'r ysgol. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y trefniadau cyfathrebu mor syml â phosibl i'r defnyddiwr. I'r perwyl hwn, gall awdurdodau ystyried creu 'siop un stop' gydag un pwynt cyswllt ar gyfer ysgolion, gweithredwyr bysiau, rhieni a'r cyhoedd. Mae'n hollbwysig bod rhieni, ysgolion, gweithwyr cymdeithasol, gweithredwyr a disgyblion yn gwybod â phwy i gysylltu os oes arnynt angen gwybodaeth a chyngor. Dyma'r math o wybodaeth y gallai fod ei hangen ar rieni a disgyblion:-

- trefniadau ar gyfer gwneud cais am gludiant am ddim a/neu ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â darparu cludiant am ddim;
- sut i gwyno;
- â phwy i gysylltu os oes argyfwng;
- y ddarpariaeth o hebryngwyr a'u rôl;
- hysbysiad yn nodi y gallai cyfarpar CCTV gael ei osod mewn cerbydau er mwyn adnabod disgyblion sy'n camymddwyn;
- unrhyw gyngor penodol i rieni'r disgyblion hynny sydd ag AAA neu anableddau;

- trefniadau amddiffyn plant; a
- chodau ymarfer ar gyfer disgyblion a'r cosbau perthnasol.

## *Newidiadau i Bolisïau Cludiant Ysgolion – Cysylltu â Disgyblion a Rhieni*

5.8 Dim ond ar ddechrau blwyddyn ysgol y dylai awdurdod ond newid polisi a/neu drefniadau cludiant presennol (oni bai bod argyfwng megis gwaith ffordd yn ei gwneud hi'n angenrheidiol). Dylai unrhyw newidiadau sy'n cyfyngu ar y ddarpariaeth yn ôl disgresiwn o gludiant am ddim i ysgolion ond fod yn berthnasol i ddisgyblion sy'n cyrraedd oedran ysgol gorfodol neu sy'n newid ysgol. Gellir barnu bod awdurdod wedi gweithredu'n afresymol petai hawl y disgybl i dderbyn cludiant am ddim yn cael ei golli yn ystod addysg plentyn mewn ysgol benodol ac nad oedd rhieni yn ymwybodol bod hyn yn bosibl adeg derbyn eu cais am le. Gellir barnu hefyd bod awdurdod wedi gweithredu'n afresymol mewn perthynas â newid unrhyw agwedd arall ar ei drefniadau, fel newid amser gwasanaethau neu fannau casglu neu ollwng y disgyblion, os nad oedd wedi rhoi digon o rybudd i'r rhieni ei fod yn bwriadu gwneud y newid hwn nac ychwaith wedi caniatáu digon o amser cyn gwneud y newidiadau.

5.9 Os yw awdurdod yn ystyried newid ei bolisi cludiant i'r ysgol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn argymell, er mwyn bod yn deg a dangos arferion da, y dylid ymgynghori gydag ysgolion, rhieni'r disgyblion ac unrhyw berson arall perthnasol y mae'r newid yn debygol o effeithio arnynt, cyn y gwneir unrhyw benderfyniad.

5.10 Dylid hefyd ymgynghori â'r disgyblion, lle y bo hynny'n briodol, fel eu bod hwythau hefyd yn cael cyfle i gyfrannu. Gallai awdurdodau lleol ofyn i gynghorau ysgolion neu eu fforymau ieuenctid am eu safbwyntiau hwy. Dylai'r dulliau o geisio barn y disgyblion anelu at gynnwys cymaint â phosibl o ddisgyblion a dylid ceisio eu barn hwy trwy ddulliau sy'n briodol i'w hoedran. Dylai'r rhai sy'n ymgynghori â'r disgyblion sicrhau eu bod yn cael darlun clir o sut y bydd eu safbwyntiau yn cael eu hystyried a bod adborth yn cael ei roi maes o law ynghylch penderfyniadau.

## *Cyswllt cyffredinol ag ysgolion*

5.11 Mae gan ysgolion rôl hanfodol i'w chwarae wrth helpu i sicrhau bod trefniadau cludiant yn mynd yn eu blaen yn hwylus. Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn chwarae eu rhan yn effeithiol, bydd yn rhaid i awdurdodau gydweithio'n agos â hwy. Dylai'r ddwy ochr wneud pob ymdrech i sicrhau bod y cyfathrebu rhyngddynt yn dda a bod eu perthynas yn bositif iawn. Dylai ysgolion chwarae'u rhan fel a ganlyn:-

- y pennaeth ddylai fod y pwynt cyswllt ar gyfer yr awdurdod a'r gweithredwr ar gyfer materion cludiant, neu os bydd rhywun arall yn chwarae'r rôl hwnnw, dylid trosglwyddo'r wybodaeth honno'n glir;
- rhaid hysbysu'r awdurdod ar unwaith ynghylch unrhyw ddiffygion yn y gwasanaeth cludiant;

- dylid goruchwylio’r mannau codi a gollwng yn briodol pan fydd y mannau hyn ar dir yr ysgol, y tu allan i’r ysgol neu’n agos at yr ysgol; a
- dylai’r ysgol helpu’r awdurdod i adnabod y disgyblion hynny yr amheuir eu bod wedi bod yn camymddwyn ar y bysiau.

# Rhan 6: Materion Diogelwch Eraill

## *Trosolwg*

6.1 Nid yw Rhan 6 yn gyfystyr â chanllawiau statudol a gyhoeddir o dan adran 15 o'r Mesur (ac o'r herwydd nid oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i'w hystyried), ond amlinella yr hyn a ystyrir yn arfer da a byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol ei dilyn.

## *Safonau Cerbydau*

6.2 Mae'n rhaid i gerbydau fodloni gofynion deddfwriaeth o safbwynt diogelwch ar y ffyrdd a chludiant bob amser. Dylai awdurdodau lleol gysylltu â'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA), yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Comisiynydd Traffig ynghylch unrhyw bryderon y gallai fod ganddynt ynghylch unrhyw achosion tybiedig lle na chydymffurfiwyd â'r safonau cyfreithiol.

6.3 Dylai awdurdodau lleol gyflwyno gweithdrefnau monitro a gwerthuso cadarn er mwyn sicrhau bod y gofynion a bennir yn eu contractau yn cael eu bodloni. Dylai contractau gael eu monitro drwy wiriadau ar hap, ymweliadau ag ysgolion a gweithredwyr, a thrwy ymchwilio i adborth oddi wrth ysgolion, disgyblion a rhieni.

6.4 Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai awdurdod adolygu'r modd y caiff ei drefniadau dan gontract eu gweithredu unwaith y tymor er mwyn cadarnhau eu bod yn gweithio ac er mwyn pennu a datrys unrhyw wendidau.

6.5 Mae ymddangosiad bysiau ysgol, y modd y cânt eu cynnal a'u cadw a pha mor gyfforddus ydynt yn ystyriaeth bwysig - mae rhai awdurdodau lleol wedi llwyddo i godi safonau drwy fynd i'r afael â materion penodol o fewn contractau bysiau. Mae'r dechnoleg ddiweddaraf yn creu cyfle i gynnwys nodweddion arbennig sy'n apelio at wahanol grwpiau oedran, er enghraifft mae plant iau yn dueddol o ddiflasu wrth deithio a gallai fideos ar deledu uwch eu pen gael eu defnyddio er mwyn eu diddanu a lleihau ymddygiad a allai beri problemau.

## *Gwregysau Diogelwch*

6.6 Caiff y gofynion ynghylch gosod gwregysau diogelwch eu pennu gan Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) (Diwygio) (Rhif 2) 2001 (OS 2001/1043). Mae'n rhaid gosod gwregysau diogelwch ymhob bws mini (a ddiffinnir fel cerbyd modur a adeiladwyd neu a addaswyd ar gyfer cludo rhwng 9 ac 16 o deithwyr ag iddynt sedd, heb gynnwys y gyrrwr). Mae'n rhaid hefyd gosod gwregysau diogelwch mewn coetsys (a ddiffinnir fel math o fws mawr, a adeiladwyd neu a addaswyd ar gyfer cludo mwy nag 16 o deithwyr ag iddynt sedd ynghyd â'r gyrrwr, y mae ei bwysau gros dros 7.5 o dunelli ac a all yrru ar gyflymder o dros 60 milltir yr awr) a ddefnyddiwyd gyntaf ar ôl 1 Hydref 1988. Nid yw'n ofynnol gosod gwregysau diogelwch ar fysiau nad ydynt yn bodloni meini prawf coets o ran pwysau na chyflymder.

6.7 Caiff y gofyn i wisgo gwregysau diogelwch ei bennu gan Reoliadau Cerbydau Modur (Gwisgo Gwregysau Diogelwch) (Diwygio) 2006 (OS 2006/1892) a ddaeth i rym ar 18 Medi 2006. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i deithwyr 14 mlwydd oed neu'n hŷn ag iddynt sedd mewn bws neu goets ddefnyddio gwregys diogelwch os oes un wedi'i osod. Mae'n rhaid i weithredwyr bysiau a choetsys lle y mae gwregysau diogelwch wedi'u gosod gymryd camau rhesymol i hysbysu teithwyr ynghylch yr angen i ddefnyddio gwregysau diogelwch. Nid yw'n ofynnol ar hyn o bryd i deithwyr rhwng 3 ac 13 oed wisgo gwregysau diogelwch ar gerbydau o'r fath, ond dylai'r awdurdod lleol annog teithwyr i'w gwisgo. Mae Adran Drafnidiaeth y DU yn disgwyl i reoliadau gael eu cwblhau yn ddiweddarach yn 2009 a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i deithwyr rhwng 3 ac 13 oed ddefnyddio gwregysau diogelwch lle y maent wedi'u gosod.

6.8 Mater i awdurdod lleol yw penderfynu pa fath o gerbyd y dylid ei ddarparu ar gyfer ffordd benodol a phennu yn nogfennau'r tendr unrhyw ofynion posibl o ran gwregysau diogelwch. Dylai'r penderfyniad adlewyrchu oedran y disgyblion, natur y ffordd, ac unrhyw wybodaeth arall berthnasol a allai effeithio ar ddyletswydd gofal yr awdurdod i'r disgyblion.

## *Y Consesiwn '3 am 2'*

6.9 O dan Reoliadau Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (Cynhwysedd Cludo) 1984, gall gweithredwyr bws ddefnyddio'r consesiwn '3 am 2' sy'n caniatáu i dri o blant o dan 14 oed eistedd ar sedd ar ffurf mainc a gynlluniwyd ar gyfer dau o oedolion.

6.10 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod y gyfraith yn caniatáu'r defnydd o'r 'consesiwn 3 am 2' ar gyfer cludiant i'r ysgol ond nid yw o blaid defnyddio'r consesiwn oni bai fod rhesymau gweithredol eithriadol (e.e. tywydd garw, methiant cerbyd neu argyfwng a allai olygu na fyddai disgyblion yn cyrraedd adref fel arall). Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn nodi bod sawl awdurdod yng Nghymru wedi ymrwymo i beidio â defnyddio'r consesiwn ac mae'n annog arferion da o'r fath a ddylai wella diogelwch, yn arbennig pan geir gwregysau diogelwch addas ar y cerbyd.

## *Bysiau Deulawr*

6.11 Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru o blaid ychwaith y defnydd o fysiau deulawr oni bai fod rhesymau eithriadol. Serch hynny, os cânt eu defnyddio mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl iddynt gydymffurfio â'r fanyleb ddiogelwch uchaf bosibl, sy'n cynnwys Teledu Cylch Cyfyng, gwregysau diogelwch etc.

## *Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)*

6.12 Mae gosod cyfarpar Teledu Cylch Cyfyng ar fysiau bellach yn arfer mwy cyffredin ac mae rhai awdurdodau wedi ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ei bennu fel amod o'u contract. Gall Teledu Cylch Cyfyng ddarparu tystiolaeth yn dangos pa ddisgyblion sy'n ymddwyn yn ddrwg fel y gall camau gael eu cymryd i wella eu hymddygiad. Gall Teledu Cylch Cyfyng hefyd atal camymddygiad. Lle y caiff Teledu Cylch Cyfyng ei ddefnyddio ar fysiau sydd dan gontract i ddarparu cludiant rhwng y

cartref a'r ysgol dylai awdurdodau lleol ei gwneud yn glir fod y lluniau'n gyfrinachol ond y gallent gael eu defnyddio fel tystiolaeth mewn achosion lle y mae disgyblion wedi camymddwyn neu mewn achosion o gamymddygiad gan yrwyr. Dylai contractau awdurdodau â gweithredwyr nodi'n glir pwy sy'n cadw'r lluniau, sut y cânt eu storio, am ba hyd y cânt eu storio a beth yw'r trefniadau ar gyfer eu dinistrio. Ceir rhagor o gyfarwyddyd ynghylch y defnydd o Deledu Cylch Cyfyng yn www.ico.gov.uk.

## *Trwyddedu a Hyfforddi Gyrwyr Bysiau*

6.13 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y trefniadau ar gyfer sicrhau bod gyrwyr wedi'u trwyddedu'n briodol yn cael eu cynnwys mewn contractau â gweithredwyr cludiant a bod cydymffurfiad â'r contract yn cael ei fonitro'n drylwyr gydol ei oes.

6.14 Dylai awdurdodau lleol ystyried ar y cyd â gweithredwyr cludiant pa gamau y mae angen eu cymryd er mwyn sicrhau bod gyrwyr yn ymateb i ddisgyblion mewn modd priodol ac effeithiol. Mae tact, hiwmor da a sgiliau datrys anghydfod yn bwysig ynghyd â gwybodaeth am ddiogelwch, gweithdrefnau brys a materion yn ymwneud ag amddiffyn plant. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog awdurdodau lleol i sicrhau bod hyfforddiant ar gyfer gyrwyr mewn materion priodol yn cael ei gynnwys fel amod contract. Mater i awdurdodau yw penderfynu a ddylid trefnu hyfforddiant ar gyfer gyrwyr yn ganolog neu ei ariannu, neu'n hytrach ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr wneud eu trefniadau eu hunain. Gallai fod yn bosibl i'r hyfforddiant fod yn rhan o Dystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol i Yrwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol i yrwyr gwblhau 35 o oriau o hyfforddiant cyfnodol bob 5 mlynedd.

## *Ystyriaethau Cyfreithiol Eraill ar gyfer Awdurdodau Lleol*

6.15 Deddfwriaeth ym maes cydraddoldeb fel: Deddf Cydraddoldeb 2006; y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975; Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976; Deddf yr Iaith Gymraeg 1993; Deddfau Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a 2005; Deddf Hawliau Dynol 1998.

6.16 Deddfwriaeth ym maes iechyd a diogelwch fel: Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (OS 1999/3242); Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gweithle 1992 (OS 1992/3004); a chanllawiau yn 'Workplace Transport Safety' (HSG 136) a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn 2005.

6.17 Dylai awdurdodau lleol hefyd nodi'n benodol fod dyletswydd ar y sector cyhoeddus ers mis Rhagfyr 2006 yn sgil Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 i hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer pobl anabl er mwyn gwaredu gwahaniaethu. Golyga'r ddyletswydd hon fod angen i awdurdodau cyhoeddus ystyried ymlaen llaw yr angen i adolygu eu holl bolisïau, arferion, gweithdrefnau a gwasanaethau er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl, ac er mwyn sicrhau bod eu holl wasanaethau yn cael eu cynllunio gan ystyried yn ofalus anghenion pobl anabl ymlaen llaw.

## Diffiniadau o’r Prif Dermau a ddefnyddir yn y Canllawiau hyn

*Trefniadau teithio* – Trefniadau teithio, ni waeth beth fo’r disgrifiad ohonynt ac maent yn cynnwys - darparu cludiant; darparu un person neu fwy i hebrwng plentyn pan fydd yn teithio; talu’r cyfan neu unrhyw ran o dreuliau teithio rhesymol person; talu lwfansau mewn cysylltiad â defnyddio dulliau teithio penodol.

*Mannau Perthnasol* – ysgolion a gynhelir; sefydliadau o fewn y sector addysg bellach; ysgolion annibynnol a enwir mewn datganiadau o anghenion addysgol arbennig; ysgolion arbennig nas cynhelir; unedau cyfeirio disgyblion; mannau ac eithrio unedau cyfeirio disgyblion lle y trefnir addysg o dan adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996; mannau lle y darperir addysg neu hyfforddiant a gyllidir gan Weinidogion Cymru o dan adran 34(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000; sefydliadau lle y sicrhawyd addysg a hyfforddiant a llety byrddio gan Weinidogion Cymru o dan adran 41 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000; mannau lle y darperir addysg feithrin gan awdurdod lleol neu gan unrhyw berson arall sy’n cael cymorth ariannol a roddir gan awdurdod lleol o dan drefniadau a wneir gan awdurdod lleol yn unol â’r ddyletswydd a osodir gan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

*Anghenion Teithio Dysgwyr* – anghenion dysgwyr sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod am gael trefniadau teithio addas bob dydd i'r mannau perthnasol lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant ac oddi yno.

*Anabledd a pherson anabl* – yr un ystyr ag a geir yn adran 1 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

*Oedran ysgol gorfodol* – yn golygu’r cyfnod o ddechrau’r tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn bump oed hyd y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fyddant yn cyrraedd 16 oed.

*Anhawster dysgu* – yn golygu anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy nag sydd gan y mwyafrif o bersonau yr un oedran, neu anabledd sydd naill ai'n atal y person hwnnw rhag defnyddio cyfleusterau o fath a ddarperir mewn mannau perthnasol, neu sy’n ei lesteirio wrth iddo eu defnyddio.

*Ysgol a gynhelir* – yn golygu ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir.

*Ysgol arbennig nas cynhelir* – yn golygu ysgol a gymeradwywyd o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996.

*Plant sy’n Derbyn Gofal* – yr un ystyr ag adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989, h.y. plentyn o dan ofal yr awdurdod lleol neu sy’n derbyn llety gan awdurdod lleol wrth iddo gyflawni unrhyw swyddogaethau sy’n swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (ac eithrio swyddogaethau o dan adrannau 17, 23B a 24B).

*Dulliau Teithio Cynaliadwy* – dulliau teithio a allai wella llesiant corfforol y rhai sy'n eu defnyddio; a/neu lesiant amgylcheddol yr ardal.

*Ffyrdd sydd ar gael* – os yw’n ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y ffordd ar ei ben ei hun, neu os yw’n ddiogel i’r cyfryw blentyn gerdded y ffordd gyda hebryngwr, pe byddai oedran y plentyn yn galw am ddarparu hebryngwr.

*Ysgol addas* – mae’r addysg neu’r hyfforddiant a ddarperir yn addas o ystyried oedran, gallu a doniau’r plentyn ac unrhyw anawsterau dysgu a all fod ganddo.

## Dolenni i Wybodaeth Ddefnyddiol

1. Y Comisiwn Archwilio – Gwella Cludiant y Brif Ffrwd rhwng y Cartref a'r Ysgol: http://www.audit-commission.gov.uk/Products/NATIONAL-REPORT/F624E5F1-A7E4-419a-94BA-7DF2FC096CE2/goingplacesschool.pdf

2. Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/w-2009

3. Deddf Diogelu Data 1998: http://www.opsi.gov.uk/Acts/Acts1998/ukpga_19980029_en_1

4. Deddf Addysg 1996: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1996/ukpga_19960056_en_1

5. Education Act 2002: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2002/ukpga_20020032_en_1

6. The Education (Areas to which pupils and students Belong) Regulations 1996: http://www.opsi.gov.uk/si/si1996/Uksi_19960615_en_1.htm

7. Deddf Llywodraeth Cymru 2006: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060032_en_1

8. Deddf Hawliau 1998: http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts1998/ukpga_19980042_en_1

9. Iaith Pawb: http://wales.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/iaithpawb/?skip=1&lang=cy

10. Yr Awdurdod Diogelu Annibynnol: http://www.isa-gov.org.uk/

11. Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/w-2009

12. Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/mwa2008/mwa_20080002_en_1

13. Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) Nodiadau Esboniadol: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/mwa2008/en/mwaen_20080002_en.pdf

14. Gorchymyn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (Cychwyn Rhif 1) 2009: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/w-2009

15. Fframwaith Cymru gyfan ar Asesu Risg Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol: http://new.wales.gov.uk/topics/transport/?skip=1&lang=cy

16. Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru:
http://new.wales.gov.uk/topics/improvingservices/strategy/?skip=1&lang=cy

17. Adolygiad o Ddarparu Gwasanaethau Lleol yng Nghymru:
http://www.wlga.gov.uk/cymraeg/council-meeting-documents/adroddiad-beecham-ynglyn-darparu-gwasanaethau-lleol-yng-nghymru/

18. Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006:
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/pdf/ukpga_20060047_en.pdf

19. Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998:
http://www.opsi.gov.uk/Acts/acts1998/ukpga_19980031_en_1

20. Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru:
http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/441/SEN%20Cover.pdf

21. Deddf yr Iaith Gymraeg 1993:
http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts1993/ukpga_19930038_en_1

# Polisi Cludiant o’r Cartref i’r Ysgol



1. **Polisi Cyffredinol**

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy’n byw yn y Sir ac sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol neu uned a gynhelir gan y Cyngor dan yr amgylchiadau canlynol:

- Ysgolion Cynradd - i ddysgwyr sydd yn byw 2 filltir neu drosodd o’r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch, neu’r ysgol agosaf.
- Ysgolion Uwchradd - i ddysgwyr sydd yn byw 3 milltir neu drosodd o’r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch, neu’r ysgol agosaf.
- Dysgwyr gydag anghenion addysgol arbennig neu anableddau yn unol ag argymhellion y Cyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig.

Disgwylir i ddysgwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd (ag eithrio’r sawl sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau) gerdded hyd at 2 filltir i gyfarfod ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd.

Er mwyn derbyn cludiant am ddim mae disgwyl i rieni dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gwblhau ffurflen gais am gludiant a’i dychwelyd i’r Swyddfa Addysg.

Mae derbyn cludiant am ddim yn amodol ar i’r dysgwr gydymffurfio a’r côd ymddygiad ar gyfer cludiant ysgol. Cyfrifoldeb rhieni / gwarcheidwad yw sicrhau cydymffurfiaeth a’r côd ymddygiad. Gall peidio â chydymffurfio arwain at golli’r hawl i gael cludiant am ddim o’r cartref i’r ysgol . Os collir hawl i gludiant am ddim, cyfrifoldeb y rhieni / gwarcheidwad yw ysgwyddo’r gost cludiant o’r cartref i’r ysgol.

(Mae’n ofynnol i ddysgwyr sydd yn mynychu ysgol heblaw’r ysgol dalgylch neu’r ysgol agosaf wneud eu trefniadau teithio eu hunain ac ysgwyddo’r gost.)

2. **Cynllun Seddau Gweigion**

Gall dysgwyr sydd yn byw llai na 2 filltir (ysgol gynradd) neu 3 milltir (ysgol uwchradd) sydd heb hawl i gludiant am ddim fanteisio’n amodol ar unrhyw seddau gweigion yng ngherbydau cytundeb y Cyngor

Mae manteisio ar y cynllun yn amodol ar :-

- bod seddau gweigion ar gael
- nid oes angen i’r cerbyd wyro oddi ar ei daith arferol
- nid oes costau ychwanegol i’r Cyngor
- talu’r ffi seddau gweigion cyfredol

Mae’r Cyngor yn fodlon ystyried ceisiadau gan ddysgwyr sydd yn mynychu ysgol heblaw’r ysgol dalgylch i fanteisio yn amodol ar unrhyw seddau gweigion ar gerbydau cytundeb drwy dalu’r ffi all-

(Nid yw'r cynllun seddau gweigion ar gael ar gytundebau sydd yn cael eu darparu trwy ddefnyddio gwasanaeth bws cyhoeddus.)

3. **Ffyrdd cerdded**
Pan fydd dysgwr yn byw llai na 2 filltir (ysgol gynradd) neu 3 milltir (ysgol uwchradd) o'r ysgol dalgylch, ac felly heb hawl i gludiant am ddim, ond sydd yn teithio i'r ysgol ar hyd ffyrdd a ystyrir yn arbennig o beryglus gan y Cyngor, cynigir cludiant am ddim.

Y diffiniad o ffordd beryglus yw lle mae natur y ffordd (sy'n cynnwys llwybrau cyhoeddus) yn golygu nad yw'n rhesymol disgwyl i ddysgwr o'i oed gerdded (gyda hebryngwr fel y bo angen) yn gymharol ddiogel. Wrth asesu'r diogelwch cymharol, bydd y Cyngor yn ymgymryd ag asesiad o'r risgiau y gallai dysgwr eu hwynebu ar hyd y ffordd a bennwyd (gan gynnwys, er engraifft, afonydd, ffosydd, cyflymder y traffig ar hyd y ffordd gyfagos, bodolaeth goleuadau stryd, hanes damweiniau, coed neu ganghennau sy'n crogi drosodd a all amharu ar allu cerddwyr neu yrrwyr i weld, ayyb). Bydd yr asesiad yn cael ei gynnal ar adegau o'r dydd a diwrnodau'r wythnos pryd y bydd disgwyl i ddysgwyr ei defnyddio.

Y ffordd fyrraf sydd ar gael yw'r ffordd nid yw yn arbennig o beryglus ym marn y Cyngor ar ôl asesu'r ffyrdd eraill sydd ar gael ar gyfer y daith.

4. **Dysgwyr yn symud i fyw yn ystod cwrs arholiad**
Bydd y Cyngor yn cyfrannu at gostau teithio dysgwr sydd yn symud i fyw i ddalgylch newydd yn ystod blwyddyn arholiad allanol, neu'r flwyddyn flaenorol, e.e cwrs Safon A neu TGAU, ag sydd yn dymuno cwblhau'r cwrs yn yr un ysgol sydd yn gwasanaethu ei hen gartref trwy un o'r dulliau canlynol:-
● Cynnig teithio am ddim pan mae modd trefnu cludiant heb gost ychwanegol i'r Cyngor.
● Cynnig talu swm hyd at uchafswm sy'n cyfateb i 20 milltir o deithio dyddiol yn ôl graddfa lwfans teithio cyfredol cenedlaethol cludiant cyhoeddus llywodraeth leol.
Bydd unrhyw daliad yn cael ei wneud ar ddiwedd pob tymor am bob diwrnod mae'r dysgwr wedi ei gofnodi'n bresennol ar gofrestr yr Ysgol.